



BWRDD PARTNERIAETH  
RHANBARTHOL  
CAERDYDD A'R FRO  
CARDIFF & VALE  
REGIONAL PARTNERSHIP  
BOARD

# Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad

Marchnad Gofal a Chefnogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Reoleiddir

2022-2027



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# Cynnwys

|          |   |           |
|----------|---|-----------|
| <b>1</b> | <b>Crynodeb</b>   | <b>4</b>  |
| 1.1      | <i>Cyflwyniad</i>   | 4         |
| 1.2      | <i>Crynodeb o faterion digonoldeb y farchnad a risgiau i sefydlogrwydd y farchnad</i>             | 4         |
| 1.3      | <i>Beth y bwriadwn wneud</i>  | 8         |
| <b>2</b> | <b>Cyflwyniad</b>   | <b>10</b> |
| <b>3</b> | <b>Ein hagwed</b>   | <b>11</b> |
| <b>4</b> | <b>Cyd-destun</b>   | <b>12</b> |
| 4.1      | <i>Cyd-destun Demograffig</i>   | 12        |
| 4.2      | <i>COVID-19 a'r amodau economaidd presennol</i>   | 14        |
| 4.3      | <i>Cyd-destun Ariannol</i>  | 16        |
| 4.4      | <i>Policy Cyd-destun Polisi Cenedlaethol</i>  | 17        |
| 4.5      | <i>Strategaeth Ranbarthol - Oedolion a Phobl Hŷn</i>  | 20        |
| 4.6      | <i>Strategaeth Ranbarthol - Plant a Phobl Ifanc</i>   | 22        |
| <b>5</b> | <b>Gwasanaethau Oedolion: Crynodeb o Faterion Digonoldeb y Farchnad a Risgiau i Sefydlogrwydd</b> | <b>24</b> |
| 5.1      | <i>Crynodeb o'r farchnad – Cartrefi preswyl a gofal nyrsio pobl hŷn (65+ oed)</i>                 | 25        |
| 5.2      | <i>Crynodeb o'r farchnad – Gofal cartref i oedolion 18 a hŷn</i>                                  | 27        |
| 5.3      | <i>Crynodeb o'r farchnad – Cartrefi preswyl a gofal nyrsio oedolion (18-64 oed)</i>               | 29        |
| 5.4      | <i>Crynodeb o'r farchnad - Lleoliadau oedolion/bywydau a rennir</i>                               | 31        |
| 5.5      | <i>Crynodeb o'r farchnad – Gwasanaethau eirioliaeth i oedolion</i>                                | 33        |
| 5.6      | <i>Digonoldeb gallu Gwasanaethau Oedolion i gwrdd â lefelau angen tebygol y dyfodol?</i>          | 35        |
| 5.7      | <i>Gwytnwch darparwyr yn y farchnad gofal a chefnogaeth i oedolion</i>                            | 36        |

# Cynnwys

|          |   |           |
|----------|---|-----------|
| <b>6</b> | <b>Gwasanaethau Plant: Crynodeb o Faterion Digonoldeb y Farchnad a Risgiau i Sefydlogrwydd</b>                        | <b>39</b> |
| 6.1      | <i>Niferoedd Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG)</i>  | 40        |
| 6.2      | <i>Crynodeb o'r farchnad – Cartrefi gofal plant (Cartrefi gofal preswyl, llety diogel, canolfannau teulu preswyl)</i> | 41        |
| 6.3      | <i>Crynodeb o'r farchnad - Gwasanaethau mabwysiadu</i>  | 44        |
| 6.4      | <i>Crynodeb o'r farchnad - Gofal maeth a chan berthnasau</i>  | 46        |
| 6.5      | <i>Crynodeb o'r farchnad –Gwasanaethau eiriolaeth i blant a theuluoedd</i>  | 49        |
| 6.6      | <i>Digonoldeb gallu Gwasanaethau Plant i gwrdd â lefelau angen tebygol y dyfodol?</i>                                 | 51        |
| <b>7</b> | <b>Themâu Strategol</b>   | <b>52</b> |
| 7.1      | <i>Cyflwyniad</i>   | 52        |
| 7.2      | <i>Ymdrin â galluedd y gweithlu a phrinder sgiliau</i>  | 52        |
| 7.3      | <i>Talu ffioedd teg</i>   | 53        |
| 7.4      | <i>Datblygu Gwasanaethau Mewnol i ostwng risg y farchnad</i>  | 53        |
| 7.5      | <i>Moderneiddio comisiynu a chontractio</i>   | 54        |
| 7.6      | <i>Ail-sefydlu a chryfhau prosesau sicrhau ansawdd</i>  | 54        |
| 7.7      | <i>Ymdrin â bylchau mewn gwasanaethau atal ac ymyriad cynnar nas rheoleiddir</i>                                      | 55        |
| 7.8      | <i>Gwneud y mwyaf o ddewis a rheolaeth trwy wneud defnydd o daliadau uniongyrchol</i>                                 | 56        |

# 1 Crynodeb


## 1.1 Cyflwyniad

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn ardal pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn gweithio gyda'u bwrdd iechyd lleol i ddatblygu Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) Rhanbarthol.

Asesiad strategol ar lefel uchel yw'r ASF hwn i weld a all y farchnad gofal a chefnogaeth ranbarthol gwrdd â'r anghenion gofal a chefnogaeth a sefydlwyd trwy'r [Dadansoddiad Anghenion y Boblogaeth \(DAB\)](#) hyd at 2026. Mae'n ystyried **digonoldeb a sefydlogrwydd** cyffredinol y farchnad gofal a chefnogaeth am wasanaethau a reoleiddir. Mae'n seiliedig ar dair ffrwd waith:

- **Ffrwd waith 1 – Dadansoddiad o'r Farchnad "Fel y Mae"**. Roedd hyn yn asesu amrywiaeth a digonoldeb y marchnadoedd i gwrdd ag anghenion cefnogaeth y boblogaeth nawr. Fe'i seiliwyd ar giplun o'r darparwyr presennol a'r gweithgaredd fel yr oedd ganol Chwefror 2022 (i Oedolion) ac ar ddechrau Mawrth 2022 (i Blant)

- **Ffrwd waith 2 - "Dadansoddiad Rhagfynegiadol" o swm costau a maint gweithgaredd tebygol hyd at 2026.** Roedd hyn yn edrych ymlaen ac yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil DAB diweddar i asesu'r anghenion cefnogaeth tebygol at y dyfodol o gymharu â gallu cyfredol y farchnad.
- **Ffrwd waith 3 - Problemau, risgiau a chryfderau'r farchnad.** Seiliwyd hyn ar gyfweiliadau gyda chomisiynwyr a darparwyr ac ar adborth gan ddinasyddion a dderbyniwyd yn ystod y broses DAB. Roedd y ffrwd waith hon yn nodi problemau, risgiau a chryfderau'r farchnad.



## 1.2 Crynodeb of faterion digonoldeb y farchnad a risgiau i sefydlogrwydd y farchnad

Mae llawer o broblemau a risgiau i ddigonoldeb a sefydlogrwydd y farchnad yn bodoli ac y mae angen mynd i'r afael â hwy neu eu lliniaru. Crynhoir y prif rai yn y tabl isod. Mae Adrannau 5 a 6 yn rhoi'r manylion llawn.

| Gwasanaethau Oedolion   | Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (PaPhi)   |
|---|--|
| <p><b>O ran gofal a chefnogaeth mewn gwelyau i bobl hŷn, y prif broblemau yw:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Er bod digon o allu ar y cyfan ar hyn o bryd, mae angen i'r modelau gofal a chefnogaeth newid. Mae arnom angen llai o ofal preswyl generig a mwy o allu arbenigol i gynnal pobl â dementia ac ar ddiwedd eu hoes. Cynyddu hefyd wnaiff y galw am ofal nyrsio dros y pum mlynedd nesaf ar gyfradd o 58 o lefydd ychwanegol y flwyddyn. Felly rhaid sicrhau mwy o'r gallu hwn "yn yr ardal."</li><li>Mae sefydlogrwydd y farchnad yn ansicr. Mae rhai darparwyr cartrefi gofal yn rhedeg ar lefelau llenwi sy'n rhy isel i fod yn gynaliadwy, ac y mae llawer heb lawer o hyder am hyfywedd eu modelau busnes at y dyfodol. Mae risg o dynnu allan yn ddi-drefn o'r farchnad, a allai ansefydlogi'r marchnadoedd a tharfu ar fywydau'r trigolion.</li></ul> | <p>Y brif her yw diffyg gallu gofal maeth digonol i gwrdd ag anghenion yn y ffordd orau. O'r herwydd, i rai plant rydym yn defnyddio dewisiadau preswyl yn amlach na'r hyn fuasai'n ddelfrydol, ac oherwydd diffyg llefydd preswyl "yn yr ardal", mae cyfran uchel o leoliadau preswyl "allan o'r ardal." (AOA). Mae'n bwysig hefyd parhau i asesu perthnasau sy'n ofalwyr fel dewis i blant yn eu teuluoedd. Disgwylwn yr angen isod:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Lleoliadau gofal gan berthnasau i gynyddu 57% o 265 o leoliadau yn 2021-22 i 416 yn 2025-26</li><li>Lleoliadau maethu mewnol i gynyddu 47% o 189 yn 2021-22 i 278 yn 2025-26</li><li>Lleoliadau maethu trwy asiantaethau i gynyddu 12% o 387 yn 2021-22 i 432 yn 2025-26</li><li>Lleoliadau preswyl i gynyddu 27% o 116 o leoliadau yn 2021-22 i 147 o leoliadau yn 2025-26</li><li>Mabwysiadu i aros ar lefelau tebyg i'r hyn ydynt yn awr tan 2025-26</li></ul> |

## Gwasanaethau Oedolion

### O ran gofal yn y cartref, dyma'r problemau allweddol:

- Nid oes digon o allu ar hyn o bryd ac y mae'r galw yn cynyddu. Erbyn 2026 rydym yn amcangyfrif y bydd angen cyfanswm o 3.500 yn fwy o oriau, ac i gwrdd â'r angen gyda darparwyr lleol, bydd arnom angen 12,300 o oriau o allu ychwanegol yr wythnos, seiliedig "yn yr ardal".
- Fel gyda gofal mewn gwelyau, mae arnom angen mwy o ofal arbenigol, er enghraifft, i gefnogi pobl â dementia neu anghenion cymhleth eraill sydd eisiau parhau i fyw gartref.
- Y prif rwystr i gynnal marchnad gofal cartref sefydlog yw prinder dybryd o weithlu gyda sgiliau. Mae darparwyr hefyd yn pryderu am gostau cynyddol. Mae'n bwysig felly i ffioedd aros yn deg a chynaliadwy.

## Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (PaPhi)

Mae'r farchnad am ofalwyr maeth yn dra dibynnol ar ychydig o ddarparwyr allweddol gyda'r pum prif ddarparwr yn cyfrif am 71% o'r gwariant. Byddai'n anodd iawn ymdopi petai un o'r darparwyr mawr hyn yn methu. Fodd bynnag, mae graddfa risg sefydlogrwydd y farchnad yn dibynnu ar allu darparwyr eraill a gwasanaethau mewnol i gymryd y rhai fyddai'n gorfod symud petai darparwr yn methu neu'n tynnu allan o'r farchnad.

Felly mae bod â throsolwg o sefydlogrwydd darparwyr, strategaethau darparwyr, a dal i asesu risg dwysedd y farchnad yn hollbwysig.

Mae'n bwysig hefyd ein bod yn parhau i ddatblygu ein galluedd mewnol ac yn datblygu perthynas agos â'n holl ddarparwyr er mwyn gwella ein gallu i adnabod lleoliadau ac i liniaru'r effaith tebygol petai darparwr yn methu neu'n tynnu allan o'r farchnad.



| Gwasanaethau Oedolion   | Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (PaPhi)   |
|---|--|
| <p>I oedolion sydd â'u prif anghenion gofal a chefnogaeth yn ymwneud ag anableddau dysgu, salwch meddwl, anabledd corfforol, neu nam synhwyrdd, y problemau difrifol yw dim digon o'r canlynol "yn yr ardal":</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwasanaethau gofal preswyl Anabledd Dysgu Arbenigol /ASA i oedolion 18-64 oed. Mae hyn yn arwain at 46% o leoliadau yn rhai AOA. Gwyddom fod grwpiau o bobl gydag anghenion tebyg am gefnogaeth y gellid (os yn gydnaws) eu dwyn yn ôl a'u cefnogi gan wasanaethau bychain arbenigol "yn yr ardal".</li> <li>Gwasanaethau arbenigol preswyl ac yn y cartref i bobl dros 65 oed sydd angen cefnogaeth gydag Anableddau Dysgu.</li> <li>Mae arnom angen gallu gofal preswyl i bobl iau (gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu) sy'n byw gyda dementia a gychwynnodd yn gynnar.</li> <li>Lleoliadau oedolion. Mae'r farchnad hon wedi ei hansefydlogi gan effaith COVID ac nid oes yno gymaint o allu ar hyn o bryd i gwrdd â'r galw. Mae'r bwlch hwn yn arwain at fwy o alw am fathau eraill o wasanaethau yn ei le.</li> </ul> | <p>Y brif risg sy'n wynebu mabwysiadu yw nad oes digon o ddarpar-rieni mabwysiadu i rai grwpiau, e.e., brodyr a chwiorydd, plant hŷn, plant o dreftadaeth gymysg, a phlant gydag anghenion mwy cymhleth. Mae hyn yn amlygu'r angen am fentrau recriwtio newydd.</p> <p><b>Y prif faterion sy'n effeithio ar ofal preswyl yw:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Diffyg llety diogel. Mae hyn yn broblem yng Nghymru gyfan.</li> <li>Mae'r darparwyr preswyl yn y rhanbarth yn cael trafferth recriwtio gweithwyr ac ni all rhai darparwyr gyflwyno gwasanaeth yn unol â'u datganiad o bwrpas.</li> <li>Llai o allu i ofalu am blant a'r anghenion mwyaf cymhleth yng nghydestun rhai plant gydag anghenion llai yn gorfod mynd i ofal preswyl am nad oes digon o leoliadau maeth.</li> </ul> <p>Mae'r bylchau hyn yn arwain at nifer uchel o leoliadau AOA ac yn tynnu sylw at y diffyg gallu "yn yr ardal" ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.</p> <p>Mae i'r bylchau hyn mewn gallu oblygiadau cost gan y gall fod "premiwm pris" o'i gymharu â'r ddarpariaeth leol, ac oblygiadau o ran ansawdd wrth i blant gael eu gwahanu'n ddaearyddol oddi wrth eu teuluoedd a'u cymunedau lleol a'r gefnogaeth sy'n gysylltiedig â hyn.</p> |

## 1.3 Beth y bwriadwn wneud

### **Mae ein cynlluniau i ymdrin â phroblemau digonoldeb y farchnad a risgiau sefydlogrwydd ym mhob marchnad a rooleiddir yn adrannau 5 a 6 yr ASF.**

Mae Adran 7 yn grwpio'r camau penodol i'r farchnad yn saith thema fel a ganlyn. Byddwn yn gweithio'n agos gyda darparwyr, cymunedau lleol a phartneriaid eraill i wneud yr isod:

#### **1. Ymdrin â gallu'r gweithlu a phrinder sgiliau**

Mae recriwtio a chadw staff gyda'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi pobl ag anghenion cefnogaeth cymhleth yn her arbennig. Mae'r ffocws ar gyfer:

- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ar recriwtio/hyfforddi mwy o ofalwyr maeth mewnol, perthnasau sy'n ofalwyr a rhieni mabwysiadu.
- Gwasanaethau pobl hŷn ar recriwtio/hyfforddi staff gofal cartref a staff cartrefi gofal gyda sgiliau arbenigol mewn dementia a gofal diwedd oes.

- Gwasanaethau oedolion ar recriwtio/hyfforddi gofalwyr a staff lleoliadau oedolion /bywydau a rennir gyda sgiliau gofal a chefnogaeth arbenigol mewn anabledd dysgu, awtistiaeth, dementia a gychwynnodd yn gynnar, ac iechyd meddwl.

#### **2. Sicrhau bod y ffioedd a dalwn i ddarparwyr yn deg**

Mae hyn yn allweddol o ran ymdrin â heriau recriwtio a chadw'r gweithlu ac i ymdrin â risgiau sefydlogrwydd y farchnad lle mae darparwyr gofal a chefnogaeth oedolion a phobl hŷn yn pryderu am eu cynaliadwyedd ariannol.

Yn yr un modd, mae'r diffyg cyflenwad gofal preswyl i'n plant a phobl ifanc (PaPhI) ynghyd a'r galw cynyddol am ofal preswyl (yn arbennig i PaPhI ag anghenion cymhleth) wedi'n gorfodi weithiau i dalu ffioedd uchel ac anghynladwy. Rydym yn ymwybodol hefyd ein bod mewn "marchnad y gwerthwyr" yma, a bod angen bod yn ofalus rhag talu ffioedd nad ydynt yn rhoi gwerth am arian.

I'n helpu gyda hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth "Cytunwn i gytuno" i gomisiynwyr a darparwyr yn 2018. Byddwn yn defnyddio hyn neu becynnau tebyg i'n helpu i gytuno ar gost deg gyda darparwyr yn y rhanbarth dros gyfnod 5 mlynedd yr ASF hwn.

#### **3. Datblygu gwasanaethau mewnol i ostwng risg y farchnad**

Dros y 5 mlynedd nesaf, byddwn yn datblygu mwy o wasanaethau plant "yn yr ardal" a gwasanaethau i oedolion o oedran gwaith gydag anghenion cymhleth. Lle bo hyn yn synhwyrol o ran gwerth cymdeithasol, byddwn yn datblygu'r rhain fel gwasanaethau a/neu weithio mewn partneriaeth gyda mudiadau "nid-am-elw" lleol.

#### **4. Moderneiddio ein hagwedd at gomisiynu a chontractio**

I roi i ddarparwyr y sicrwydd a'r hyder mae arnynt ei angen i fuddsoddi mewn moderneiddio modelau gwasanaeth ac ehangu'r gallu, rydym am wneud y canlynol:

- Cyd-gynhyrchu ein strategaethau comisiynu. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr i lunio'r farchnad.
- Adeiladu ar wersi a ddysgwyd yn ystod COVID. Byddwn yn edrych i mewn i ffyrdd newydd o contractio seiliedig ar ddeilliannau lle mae gan ddarparwyr fwy o ddewis, hyblygrwydd, a chyfrifoldeb i gyflwyno gwasanaethau yn y ffordd orau i gwrdd ag anghenion dinasyddion. Er enghraifft, contractau bloc neu gymunedol.
- Gwella ein sylfaen o dystiolaeth ar gyfer cynllunio. Byddwn yn datblygu ein gallu i foddlu fel sail i ddatblygu gwasanaethau ataliol a llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig.
- Defnyddio agweddau rhanbarthol lle byddant yn rhoi gwell gwerth am arian. Byddwn yn adeiladu ar ein profiad o agweddau rhanbarthol at Wasanaethau Mabwysiadu ac Eiriolaeth Plant.

## 5. Ail-sefydlu a chryfhau prosesau sicrhau ansawdd

Yn ystod pandemig COVID fe wnaethom addasu neu roi'r gorau i'n prosesau sicrhau ansawdd er mwyn cydymffurfio â rheoliadau newydd y pandemig. Rydym bellach yn ail-gychwyn ac yn moderneiddio ein hagweddau:

- Mae Caerdydd yn rhoi trefniadau interim ar waith o ran sicrhau ansawdd hyd nes yr aiff system graddio ansawdd newydd seiliedig ar System Bwrcasu Ddeinamig yn fyw.
- Penododd Bro Morgannwg swyddog sicrhau ansawdd newydd a gweithredu fframwaith newydd ar gyfer ansawdd.

## 6. Llunio'r farchnad i gau bylchau mewn gwasanaethau nas rheoleiddir gan gynnwys gwasanaethau atal ac ymyriad cynnar

Nododd asesiad anghenion y boblogaeth yn ddiweddar lawer bwlch o ran gwasanaethau nas rheoleiddir lle mae cyswllt rhwng y bylchau a mwy o angen am wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Er enghraifft, nodwyd bylchau mewn gwasanaethau atal neu ymyriad cynnar. Petai'r gwasanaethau hyn ar gael ac yn effeithiol, gallai mwy o bobl fyw eu bywydau heb fod angen cefnogaeth gan y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yng nghwmpas yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad hwn.

## 7. Gwneud y mwyaf o ddewis a rheolaeth trwy wneud defnydd o daliadau uniongyrchol yn briodol

Bwriadwn gael mwy i dderbyn taliadau uniongyrchol trwy:

- Adolygu'r model meicro-fentrau a ddefnyddir yng [Nghyngor Sir Gwlad yr Haf](#).
- Addasu systemau sicrhau ansawdd sy'n helpu ein dinasyddion i adnabod a mynd at gefnogaeth o ansawdd dda.
- Gwella mynediad at wybodaeth a chyngor fel y gall dinasyddion wneud dewisiadau ar sail o wybodaeth.



## 2 Cyflwyniad

**Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn ardal pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn gweithio gyda'u bwrdd iechyd lleol i ddatblygu Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) Rhanbarthol. Mae gofyn i'r ASF ymdrin â chyfnod o 5 mlynedd, ac asesu a all y farchnad gofal a chefnogaeth gwrdd â'r anghenion gofal a chefnogaeth a ddefnyddiwyd trwy [Ddadansoddiad Anghenion y Boblogaeth \(DAB\)](#). Mae'r ASF hwn yn ymdrin â'r cyfnod o ganol 2022 trwodd at 2026.**

Mae'r ASF hwn yn drosolwg ac asesiad ar lefel uchel o ddigonoldeb, ac o sefydlogrwydd cyffredinol y farchnad gofal a chefnogaeth am wasanaethau a reoleiddir. Mae ei gwmpas yn ymdrin â'r isod:

- Cartrefi gofal (oedolion a phlant) gan gynnwys gwasanaethau llety diogel (i blant) a gwasanaethau canolfannau teulu preswyl
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau lleoli oedolion ('Bywydau a Rennir')

- Gwasanaethau eiriolaeth (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cefnogi cartref (Gofal yn y Cartref)

Gwnaethom gomisiynu Alder Advice<sup>1</sup> i'n cefnogi i gynnal yr ymchwil, ymwneud a'r dadansoddi angenrheidiol i sicrhau bod yr ASF wedi ei seilio ar dystiolaeth gadarn am anghenion gofal a chefnogaeth yn awr ac yn y dyfodol, ac ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen gan y boblogaeth leol.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd adeiladu ar y DAB a gweithgareddau ymwneud â dinasyddion, a wnaed er mwyn deall yn fanwl brofiadau a barn pobl am y farchnad gwasanaethau cymdeithasol lleol ac ansawdd y gefnogaeth sydd ar gael.

*1 Mae Alder Advice yn grŵp o weithwyr gofal cymdeithasol, iechyd a thai proffesiynol annibynnol sy'n gweithio gyda'i gilydd i roi cyngor a darparu'r gallu i ardaloedd lleol sy'n ymdrechu i wella bywydau pobl sy'n byw gydag anableddau.*



## 3 Ein hagwedd

Er mwyn sicrhau bod yr ASF ar sail gadarn o dystiolaeth, gwnaethom gynnal tair ffrwd waith greiddiol gyda chefnogaeth Alder Advice.

### Ffrwd waith 1 - Dadansoddiad “Fel y Mae” o’r Farchnad

Asesu amrywiaeth a digonoldeb adnoddau yn y farchnad i gwrdd ag anghenion presennol y boblogaeth am gefnogaeth **ac** adnabod risgiau strwythurol yn y farchnad a allasai effeithio ar sefydlogrwydd y farchnad. Seiliwyd hyn ar y ciplun diweddaraf o allu’r farchnad, costau gofal a chefnogaeth, ac ansawdd<sup>2</sup>. Roedd y ciplun yn defnyddio data gan awdurdodau lleol a’r bwrdd iechyd am wasanaethau sy’n cael eu comisiynu ar hyn o bryd, data o Arolygiaeth Gofal Cymru am wasanaethau cofrestredig yn y rhanbarth, ac adolygiad o gynlluniau strategol a chomisiynu.<sup>3</sup>

<sup>2</sup> Er bod dystiolaeth am ansawdd yn gyfyngedig, gan fod llawer o drefniadau sicrhau ansawdd wedi’u gohirio yn ystod COVID, aseswyd ansawdd yn seiliedig ar sylwadau gan bobl wybodus mewn cyfarfodydd ymchwil.

<sup>3</sup> Yn seiliedig ar giplun o weithgarwch a’r darparwyr presennol yng nghanol mis Chwefror 2022 (i Oedolion) a dechrau mis Mawrth 2022 (i Blant) a mwy o ddata plant o 4Cs ym mis Mai 2022.

### Ffrwd waith 2 - Dadansoddiad “Rhagfynegiadol” o gostau a maint yn y dyfodol hyd at 2026

Asesu anghenion tebygol am gefnogaeth dros y pum mlynedd nesaf i gymharu â’r gallu presennol a’r hyn sy’n debygol yn y dyfodol. Roedd hyn wedi ei seilio ar y Dadansoddiad Anghenion y Boblogaeth (DAB), anghenion at y dyfodol a nodwyd mewn cynlluniau gwasanaeth, strategol a chomisiynu, tueddiadau gweithgaredd hanesyddol a gofnodwyd gan Ystadegau Cymru, ac ar adborth gan gomisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol a darparwyr gofal a chefnogaeth. Er mwyn sicrhau bod y rhagfynegiadau yn ystyried amgylchiadau lleol, cafodd y rhagfynegiadau eu cynhyrchu ar y cyd mewn gweithdai ym mis Ebrill 2022 gyda grwpiau bychain o staff comisiynu lleol gyda gwybodaeth arbenigol am yr amgylchiadau lleol.


### Ffrwd waith 3 – Problemau, risgiau a chryfderau’r farchnad

Nodwyd y rhain mewn cyfweiliadau gyda chomisiynwyr a darparwyr. Ystyriwyd hefyd y dadansoddiad “Fel y Mae” o’r farchnad, y dadansoddiad rhagfynegiadol, a barn y bobl a phrofiad, dinasyddion a phartneriaid allweddol a roddwyd mewn ymchwil ar gyfer y DAB. Cafodd problemau, risgiau a chryfderau oll eu hystyried trwy lens digonoldeb a sefydlogrwydd y farchnad.

#### Cyflwynir ein canfyddiadau a’n dadansoddiad yn:

- Adran 5 - Gwasanaethau Oedolion a Phobl Hŷn
- Adran 6 - Gwasanaethau Plant

Mae Adrannau 5 a 6 yn gyfres o grynodebau digonoldeb a sefydlogrwydd marchnadoedd – un ar gyfer pob un o’r gwasanaethau a reoleiddir yng nghwmpas yr ASF. Fodd bynnag, cyn cyflwyno’r rhain fe ddisgrifiwn yn Adran 4 y prif ffactorau cyd-destunol perthnasol i ddigonoldeb a sefydlogrwydd y marchnadoedd ar hyn o bryd. However, before we present these, we will describe - in Section 4 - the main contextual factors relevant to current and future market sufficiency and stability.



## 4 Cyd-destun

### 4.1 Cyd-destun Demograffig

**Dengys Dadansoddiad Anghenion y Boblogaeth (DAB) (2022) a ddaw gyda'r Adroddiad i Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) yr amcangyfrifwyd poblogaeth y rhanbarth yn 2020 yn 504,497 (369,202 yng Nghaerdydd a 135,295 yn y Fro). Mae'r boblogaeth:**

- Wedi cynyddu o 22.5% ers 1991 pan oedd yn 415,000. Disgwylir iddo dyfu 5.7% eto i ryw 533,000 erbyn 2040.
- Mae'r proffil oedran wedi heneiddio'n raddol. Mae rhai 0-15 oed bellach yn 18.4% o'r boblogaeth o gymharu â 21.1% yn 1991 ac y mae pobl dros 65 yn awr yn 16.2% o gymharu â dim ond 15.6% yn 1991. Disgwylir iddo heneiddio dros amser. Erbyn 2040 disgwylir i 20% o'r boblogaeth fod dros 65 oed, o gymharu â 15.6% yn 1991 a 16.2% yn 2020.
- Mae'r proffil oedran yn amrywio rhwng y Fro a Chaerdydd. Yn 2020 roedd 21.3% o boblogaeth y Fro yn 65+ oed o gymharu â 14.3% yng Nghaerdydd. Disgwylir i'r gwahaniaeth hwn barhau, oherwydd erbyn 2040 bydd 26.5% o boblogaeth y Fro yn 65+ oed o gymharu â 17.5% yng Nghaerdydd. Yn bwysicach, efallai, disgwylir i gyfran y bobl dros 85+ oed gynyddu o ryw 600 y.f. o 2019 i 2040. Os digwydd hyn, bydd y boblogaeth 85 a hŷn wedi dyblu o 12,000 i 24,100 a byddant yn 4.2% o'r boblogaeth o gymharu â 2.4% yn awr.

| Caerdydd  | 0 i 15 oed |        | 16 i 64 oed |         | 65+ oed |         |      |
|-----------|------------|--------|-------------|---------|---------|---------|------|
|           | Pob Oedran | Nifer  | %           | Nifer   | %       | Nifer   | %    |
| 1991      | 296,941    | 61,978 | 20.9        | 189,133 | 63.7    | 45,830  | 15.4 |
| 2020      | 369,202    | 67,995 | 18.4        | 248,400 | 67.3    | 52,807  | 14.3 |
| 2040      | 386,861    | 64,352 | 16.6        | 254,674 | 65.8    | 67,836  | 17.5 |
| Y Fro     | Pob Oedran | Nifer  | %           | Nifer   | %       | Nifer   | %    |
| 1991      | 118,053    | 25,401 | 21.5        | 73,776  | 62.5    | 18,876  | 16.0 |
| 2020      | 135,295    | 24,917 | 18.4        | 81,540  | 60.3    | 28,838  | 21.3 |
| 2040      | 146,527    | 25,207 | 17.2        | 82,494  | 56.3    | 38,826  | 26.5 |
| Rhanbarth | Pob Oedran | Nifer  | %           | Nifer   | %       | Nifer   | %    |
| 1991      | 414,994    | 87,379 | 21.1        | 262,909 | 63.4    | 64,706  | 15.6 |
| 2020      | 504,497    | 92,912 | 18.4        | 329,940 | 65.4    | 81,645  | 16.2 |
| 2040      | 533,388    | 89,559 | 16.8        | 337,168 | 63.2    | 106,662 | 20.0 |

Mae'r DAB hefyd yn rhoi manylion am ffactorau demograffig allweddol nad ydynt yn amlwg o'r niferoedd cyffredinol, sy'n berthnasol i lefelau anghenion cefnogaeth tebygol y dyfodol yn y boblogaeth. Rhoddir manylion am rai o'r prif ffactorau isod.

| Ffactorau sy'n cynyddu'r angen am gefnogaeth i bobl hŷn 65 oed a hŷn   | Ffactorau sy'n cynyddu'r angen am gefnogaeth i oedolion iau 18-64 oed   | Ffactorau sy'n cynyddu'r angen am gefnogaeth i blant a phobl ifanc (PaPhI)   |
|--|---|--|
| Niferoedd 65 - 84 oed i gynyddu o ryw 1,150 y.f. rhwng 2019 a 2039 – o tua 70,000 o bobl i tua 93,000.   | Bydd nifer yr oedolion gydag anableddau dysgu yng Nghaerdydd yn cynyddu o 16 o bobl y.f. o 2017 i 2025 ac yn aros yn sefydlog yn y Fro. | Mae lles emosiynol PaPhI yn broblem sy'n cynyddu, yn benodol i PaPhI gyda phrofiadau andwyol mewn plentyndod a phlant sy'n derbyn gofal. |
| Niferoedd pobl 85+ oed i gynyddu o ryw 600 y.f. o 2019 i 2039. Dyblu o 12,000 i 24,100 (2.4% i 4.2% o'r boblogaeth).                           | Mae poblogaeth y bobl ag anabledd dysgu yn heneiddio. Bydd angen mwy o gefnogaeth dementia arbenigol gan gynnwys i oedolion iau.        | Mae nifer y plant sy'n ceisio lloches a neb gyda hwy ac yr effeithiodd trawma arnynt yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn.                 |
| Rhagwelir y bydd oedolion hyn yn byw gyda dementia difrifol yn dyblu erbyn 2040 yng Nghymru. Disgwylir yr un peth yng Nghaerdydd a'r Fro.      | Disgwylir i nifer y bobl 18-64 oed gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth gynyddu o 24 y.f. (tua 13%) rhwng 2017-2035.                    | Mae plant yn dod ymlaen yn iau (7-9 oed) am gefnogaeth iechyd meddwl gydag ymddygiad cymhleth ac y mae eu cefnogi'n dda yn heriol.       |
| Rhagwelir y bydd nifer y bobl angen cefnogaeth gyda gweithgareddau byw beunyddiol yn cynyddu 38% o 22,845 (2020) i 31,424 (2040) ~450 mwy y.f. | Disgwylir i nifer y bobl sy'n byw gyda salwch meddwl cyffredin gynyddu o 254 y.f. ~2% yn y 5 mlynedd nesaf.                             | Mae nifer y plant ag anableddau yn sefydlog. Caerdydd yn gostwng o 3,027 (2020) i 2,907 (2040). Cynnydd bychan yn y Fro o 1,124 i 1,149. |



## 4.2 COVID-19 ac amodau economaidd presennol

Mae pandemig COVID-19 a'r amodau economaidd caled presennol hefyd yn debyg o effeithio ar yr angen yn y dyfodol am gefnogaeth yn y rhanbarth fel a ganlyn:

| Ffactorau sy'n cynyddu'r angen am gefnogaeth i bobl hŷn 65 oed a hŷn   | Ffactorau sy'n cynyddu'r angen am gefnogaeth i oedolion iau 18-64 oed  | Ffactorau sy'n cynyddu'r angen am gefnogaeth i blant a phobl ifanc (PaPhI)   |
|--|--|--|
| Cafodd <b>COVID-19</b> effaith ar bobl hŷn mewn llawer ffordd, e.e., ynysu cymdeithasol a COVID hir wedi cynyddu'r angen am gefnogaeth iechyd ac arall.  | Cafodd <b>COVID-19</b> effaith ar oedolion mewn llawer ffordd, e.e., ynysu cymdeithasol isolation, staen ar ofalwyr teuluol, a COVID hir ar anghenion iechyd.  | Mae <b>COVID-19</b> wedi gwneud cynnal lleoliadau yn fwy heriol. Nid yw'r effaith hirdymor yn hysbys.  |
| <p><b>Argyfwng economaidd yn 2022:</b> Mae ardaloedd o amddifadedd sylweddol yn y rhanbarth. Mae dinasyddion hŷn yn ein cymunedau tlotaf yn fwy tebygol o ddioddef anghydraddoldebau iechyd.</p> <p>Gall effaith chwyddiant waethygu'r anghydraddoldebau iechyd hyn a chynyddu'r angen am wasanaethau gofal a chefnogaeth.</p> | <p><b>Argyfwng economaidd yn 2022:</b> Mae ardaloedd o amddifadedd sylweddol yn y rhanbarth. Mae oedolion yn ein cymunedau tlotaf yn fwy tebygol o ddioddef anghydraddoldebau iechyd. Gall effaith chwyddiant waethygu'r angen am wasanaethau gofal a chefnogaeth.</p> | <p><b>Argyfwng economaidd yn 2022:</b> Mae ardaloedd o amddifadedd sylweddol yn y rhanbarth. Mae anghydraddoldeb yn broblem allweddol. Mae plant sy'n byw yn ein cymunedau tlotaf yn fwy tebygol o fynd i ofal. Bydd effaith chwyddiant yn rhoi mwy o bwysau ar gymunedau difreintiedig ac anfon mwy o deuluoedd i dlodi. Dangosodd <a href="#">ymchwil gan Brifysgol Lerpwl</a> has fod tlodi yn cynyddu anghenion gofal plant.</p> |



| Ffactorau sy'n cyfyngu ar gyflenwad cefnogaeth i bobl hŷn 65 oed a hŷn   | Ffactorau sy'n cyfyngu ar gyflenwad cefnogaeth i oedolion iau 18-64 oed  | Ffactorau sy'n cyfyngu ar gyflenwad cefnogaeth i blant a phobl ifanc (PaPhi)  |
|--|--|---|
| <p><b>Mae prinder staff difrifol ymysg darparwyr gofal cartref.</b> Cynyddodd yr angen am wasanaethau cartref wedi COVID, ac y mae unrhyw angen na ellir ei ateb oherwydd prinder staff yn golygu bod anghenion cefnogaeth yn cynyddu. Mae hefyd yn arwain at oedi cyn gadael yr ysbyty, defnydd amhriodol o ofal preswyl, a mwy o faich ar ofalwyr di-dâl.</p> <p><b>Mae llawer o swyddi gwag mewn cartrefi gofal i bobl hŷn ac ni allant recriwtio/cadw'r staff angenrheidiol.</b> Effeithir ar ddigonoldeb y farchnad oherwydd nad oes modd cwrdd ag anghenion cynyddol y trigolion am gefnogaeth of residents, gan gynnwys anghenion gofal dementia a diwedd oes. Effeithir ar sefydlogrwydd y farchnad oherwydd nad oes modd cynnal capasiti hyfyw</p> <p><b>Mae perchenogion rhai cartrefi gofal heb hyder yn y dyfodol.</b> Mae llawer yn gyndyn o fuddsoddi cyfalaf i ehangu eu gallu neu wella safonau oherwydd anghydbwysedd rhwng risg a gwobr, ac oherwydd y gall buddsoddiadau amgen ymddangos yn fwy diogel a buddiol.</p> | <p><b>Mae gwasanaethau i oedolion 18-64 oed gydag anghenion cefnogaeth cymhleth yn cael anhawster recriwtio a chadw staff profiadol sydd â sgiliau.</b> Mae hyn yn effeithio ar allu'r farchnad ac yn cyfyngu ar ein gallu i gwrdd ag anghenion cefnogaeth cymhleth "yn yr ardal."</p> <p><b>Mae prinder cymorthyddion personol</b> i gefnogi pobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu am ofal a chefnogaeth wedi ei deilwrio.</p> <p><b>Mae prinder gofalwyr lleoliadau i oedolion sydd â'r sgiliau i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth.</b> Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl mewn gofal preswyl na phetai lleoliad oedolion ar gael iddynt.</p> | <p><b>Cyflenwad cyfyngedig sydd o ofalwyr maeth profiadol a hyfforddedig</b> yn lleol, yn enwedig gofalwyr maeth a'r sgiliau i gefnogi plant ag anghenion cymhleth. Dylai prosiect presennol Maethu Cymru helpu i gynyddu nifer y gofalwyr maeth.</p> <p><b>Cyflenwad cyfyngedig sydd o weithwyr gofal preswyl.</b> Mae hyn yn arwain at leoliadau "allan o'r ardal" i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sydd angen gofal arbenigol.</p> <p>Nid yw <b>effaith polisi'r Llywodraeth o gymryd elw allan o wasanaethau i ofalu am blant sy'n derbyn gofal</b> ar y cyflenwad yn hysbys eto. Felly bydd y comisiynwyr yn monitro'r sefyllfa hon yn agos.</p> |

## 4.3 Cyd-destun Ariannol

Arweiniodd cymhlethdod cyfartalog cynyddol yr angen am gefnogaeth, ynghyd â'r twf yn y boblogaeth, at gynydd mewn gwariant net ar gefnogaeth i'r canlynol:

- Cynyddodd oedolion dros 65 oed 50% dros y 5 mlynedd diwethaf
- Cynyddodd oedolion 18 i 64 oed 14% dros y 5 mlynedd diwethaf
- Cynyddodd plant a phobl ifanc 41% dros y 5 mlynedd diwethaf

### Gwasanaethau cymdeithasol – Tueddiadau gwariant net (£000)

| Rhanbarth (£000)   | 2016-17         | 2017-18         | 2018-19         | 2019-20         | 2020-21         | % Newid    |
|--|-----------------|-----------------|-----------------|-----------------|-----------------|------------|
| Cyfanswm cefnogaeth i bobl 65+ oed                               | £72,250         | £78,635         | £83,865         | £83,463         | £108,095        | 50%        |
| Cyfanswm cefnogaeth i oedolion <65 oed                           | £80,181         | £83,220         | £84,220         | £86,428         | £91,143         | 14%        |
| <b>Cyfanswm gwasanaethau cymdeithasol i oedolion y rhanbarth</b> | <b>£152,431</b> | <b>£161,855</b> | <b>£168,085</b> | <b>£169,892</b> | <b>£199,238</b> | <b>31%</b> |
| Blynyddoedd cynnar, cefnogaeth i deuluoedd, ac arall             | £41,141         | £40,932         | £43,775         | £50,934         | £60,880         | 48%        |
| Gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal                             | £50,189         | £54,571         | £61,245         | £66,655         | £67,886         | 35%        |
| <b>Cyfanswm gwasanaethau plant y rhanbarth</b>                   | <b>£91,331</b>  | <b>£95,503</b>  | <b>£105,021</b> | <b>£117,588</b> | <b>£128,767</b> | <b>41%</b> |

## 4.4 Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

Mae amddiffyn, ail-godi a datblygu gwasanaethau i bobl fregus yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn ei [rhaglen am lywodraeth 2021 i 2026](#) bydd sawl polisi yn cael effaith ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y farchnad Nghaerdydd a'r Fro. Er enghraifft:

- Bydd angen i gomisiynwyr a darparwyr fuddsoddi yn nhâl a datblygiad y gweithlu er mwyn cyflwyno'r gwir gyflog byw, codi proffil y gweithlu gofal, hyfforddi mwy o staff a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg.
- Bydd angen i wasanaethau a gomisiynwyd fod yn fwy integredig er mwyn asio'n well rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Bydd angen comisiynu gwasanaethau arloesol seiliedig dai i gyflwyno dewisiadau yn lle gwasanaethau gofal traddodiadol.
- Bydd angen ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar, rhaglenni dechrau'n deg, gwasanaethau eiriolaeth, a gwasanaethau eraill i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod i ofal i ganolbwyntio fel sydd angen ar atal ac ymyriad cynnar mewn gwasanaethau plant a phobl ifanc ac ar gefnogaeth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth a all fod ar ymylon gofal.
- Bydd angen ystyried diwygio radical ar wasanaethau cyfredol i blant sy'n derbyn gofal a gadawyr gofal i gyflwyno'r polisi o ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal ac i ddatblygu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth er mwyn ateb eu hanghenion mor agos i'w cartrefi ag sydd modd ac yng Nghymru lle bo hynny'n ymarferol.
- Effeithir ar [bolisiau codi tâl](#) i gyflwyno gwasanaeth gofal cenedlaethol sydd am ddim ar y pwynt y bydd ei angen. Mae'r taliadau a ganlyn yn gymwys am ofal cymdeithasol i oedolion:
  - *Gofal dibreswyl: Pobl yn talu hyd at uchafswm o £100 yr wythnos tuag at eu gofal a'u cefnogaeth*
  - *Gofal preswyl: Os oes gennych gyfalaf dros £50,000 efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cost lawn eich gofal preswyl.*

### Adroddiadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata (ACM)

Mae cyflwyno rhaglen Llywodraeth Cymru a ddisgrifir uchod yn taflu goleuni ar ffioedd a delir i ddarparwyr gofal a chefnogaeth. Mae hyn yn fater a amlygwyd ledled Cymru gan ddwy astudiaeth yn ddiweddar o'r farchnad:

#### ***Tynnodd [crynodeb o adroddiad astudiaeth ACM o farchnad cartrefi gofal Cymru \(2017\)](#) sylw at ddau brif fater:***

Yn gyntaf, mae'n rhaid i bobl sydd angen gofal mwy o gefnogaeth i'w helpu i ddewis cartref gofal addas a mwy o warchodaeth pan fyddant yn preswyl yno. Yn ail, nid oes digon o gyllid gan y wladwriaeth i dalu am ddarpariaeth gofal er mwyn sicrhau gallu digonol a chynaliadwy ac i roi cymhelliant i ddarparwyr fuddsoddi a moderneiddio i gwrdd ag anghenion y dyfodol. Dyma a nododd yr adroddiad:

- Mae cyfraddau ffioedd a delir gan awdurdodau lleol wedi eu gwthio i lawr. Dangosodd y dadansoddiad ariannol nad oedd y ffioedd yn ddigon i dalu costau

llawn cartrefi gofal. Ystyr hyn yw nad oes fawr o gymhelliant i gartrefi fynd i gost i foderneiddio cyfleusterau nac adeiladu o'r newydd, ac ymhen amser, gorfodir rhai i gau. Mae ACM yn amcangyfrif, ledled y DU, fod ffioedd awdurdodau lleol ar gyfartaledd 5-10% yn is na'r gost lawn wirioneddol.

- Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi gofal gymysgedd o drigolion sy'n talu amdanynt eu hunain a rhai lle mae'r wladwriaeth yn talu (cyfran o hunan-gyllidwyr yng Nghymru yn 24% o gymharu â 41% yn y DU). I raddau, mae'r sector wedi cynnal y ddarpariaeth trwy godi ffioedd uwch ar drigolion sy'n talu amdanynt eu hunain. Amcangyfrifir mai'r gwahaniaeth ar gyfartaledd yng Nghymru oedd 36% gyda rhai esiamplau o fuddsoddi mewn cartrefi gofal newydd, yn bennaf yn sector yr awdurdodau lleol.

**Cyhoeddodd yr ACM [grynodedb o adroddiad ar astudiaeth i farchnad gofal cymdeithasol plant yng Nghymru \(2022\)](#). Amlygodd ddau brif bryder:**

- Yn rhy aml, nid oedd awdurdodau lleol yn gallu cael lleoliadau addas i gwrdd ag anghenion y plant yn eu gofal.
- Roedd prisiau a dalwyd gan awdurdodau lleol yn uchel, ac roedd hyn, ynghyd â nifer

cynyddol o blant yn derbyn gofal, yn gosod cryn straen ar gyllidebau awdurdodau lleol, ac yn cyfyngu ar eu gallu i dalu am weithgareddau pwysig eraill mewn gwasanaethau plant a thu hwnt.

**Gwnaeth yr ACM yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru. Dylai:**

- Fynnu agwedd fwy cydweithredol at ymwneud â'r farchnad leoliadau gan gomisiynwyr.
- Darparu cefnogaeth ychwanegol i awdurdodau lleol a chyrrff cyfunol ar gyfer rhagfynegi, llunio'r farchnad, a chaffael.
- Cefnogi prosiectau arloesol gan awdurdodau lleol unigol, neu grwpiau o awdurdodau lleol, wedi'u targedu at recriwtio a chadw mwy o ofalwyr maeth mewnol er mwyn dibynnu llai ar asiantaethau gofal maeth annibynnol.

**Un o oblygiadau allweddol yr uchod yw bod angen i ni fel comisiynwyr gofal a chefnogaeth dalu cost gofal teg i ddarparwyr.** Yn yr un modd, lle mae'n farchnad i werthwyr, rhaid i ni warchod rhag y sawl sy'n gwneud elw gormodol. I helpu gyda hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [becyn cymorth](#) "Cytunwn i gytuno" i gomisiynwyr a darparwyr yn 2018. Bydd

dysgu o ddefnyddio'r pecyn hwn i asesu cost deg i gyflwyno yn help i ddeall beth yw lefelau ffioedd cynaliadwy. Bydd y ddealltwriaeth hon yn cefnogi darparwyr a chomisiynwyr i gytuno ar gost deg.

Mae [adroddiad gan Brifysgol Lerpwl yn ddiweddar yn cysylltu cynnydd mewn tlodi plant â'r ffaith fod mwy na 10,000 o blant yn ychwanegol wedi eu cymryd i ofal yr awdurdod lleol dros bum mlynedd](#). Canfu'r adroddiad fod cynnydd mewn cyfraddau tlodi plant wedi ei achosi i raddau helaeth gan doriadau i gefnogaeth lles. Cymharodd yr ymchwilydd ddata'r llywodraeth am nifer y plant mewn teuluoedd incwm isel gyda chyfraddau plant oedd yn mynd i ofal yn Lloegr. Amcangyfrifodd yr astudiaeth, a gyhoeddwyd yn Lancet Public Health, fod tlodi cynyddol a'r pwysau sydd ar deuluoedd wedi arwain at symud 10,351 yn ychwanegol o'u cartrefi rhwng 2015 a 2020. Mae'r astudiaeth hefyd yn amcangyfrif fod 22,945 yn fwy o blant wedi eu rhoi ar gynlluniau amddiffyn plant, ac y nodwyd bron i 52,000 yn fwy o blant fel rhai mewn angen.

**Oblygiadau'r ymchwilydd hwn yw ein bod yn disgwyl i anghenion cefnogaeth plant a theuluoedd gynyddu oherwydd effaith yr amgylchedd economaidd presennol, gan gynnwys lefelau uchel o chwyddiant.**

**Ail-gydbwysu gofal a chefnogaeth -  
Ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal  
cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn  
partneriaeth i gefnogi lles pobl yn well.**

**Papur Gwyn (2021).**

Mae'r Papur Gwyn hwn yn bwysig am ei fod yn arwydd o symudiad tuag at farchnad fwy amrywiol mewn gofal a chefnogaeth seiliedig ar ansawdd a gwerth cymdeithaso, ac agwedd fwy strwythuredig at gomisiynu ar sail fframwaith cenedlaethol, lle trefnir gwasanaethau yn rhanbarthol a'u cyflwyno yn lleol.

Mae'r Papur Gwyn yn dangos mor gymhleth yw tirwedd y farchnad gofal a chefnogaeth yng Nghymru, gyda dros 1,000 o ddarparwyr, yn bennaf o'r sector annibynnol. Mae'n disgrifio tri maes hanfodol lle mae angen canolbwyntio gweithredu i wella ac ail-gydbwysu gofal a chefnogaeth:

- Mynd â chanolbwynt sylfeini'r farchnad gofal ymaith oddi wrth bris a thuag at ansawdd a gwerth lle gall sylfaen fwy amrywiol o ddarparwyr, gan gynnwys darparwyr nid-am-elw dyfu.

- Ailgyfeirio arferion comisiynu tuag at gomisiynu gwerth cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar reoli'r farchnad a deilliannau.
- Esblygu, integreiddio a symleiddio cynllunio a chyflwyno ar y cyd fel y gall systemau lleol gefnogi modelau gofal amgen a mwy arloesol.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chefnogaeth i blant ac oedolion. Y nod yw ail-gydbwysu'r farchnad a gwella ansawdd lle trefnir gwasanaethau yn rhanbarthol a'u cyflwyno yn lleol.. Awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol fydd y prif gyrff comisiynu o hyd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. Caiff Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) fwy o arfau i'w defnyddio wrth gyflwyno eu nod sylfaenol o asesu a chynllunio ar y cyd sut orau i gwrdd ag anghenion y boblogaeth. Yn benodol, mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid sefydlu BPRh fel endidau cyfreithiol corfforaethol gyda swyddogaethau wedi'u hail-lunio a'r gallu i gyflogi staff a dal cyllidebau. Byddai disgwyl iddynt wneud tipyn o waith cyd-gomisiynu a chyfarwyddo mwy wrth lunio'r farchnad.

Yn y trefniadau newydd hyn, anogir darparwyr bychain i weithio gyda'i gilydd i ymateb i gomisiynwyr lleol. Gellid gwneud hyn trwy ddatblygu agwedd ar y cyd fel bod modd rhannu gweithgareddau, megis marchnata, caffael, a chytuno ar gyfres o fethodolegau gosod ffioedd y bydd yr holl gomisiynwyr yn gweithio gyda hwy yn y dyfodol.



---

## 4.5 Regional Strategy – Adults and Older People

**Yn wyneb costau cynyddol, mwy o anghenion cefnogaeth a gofynion deddfwriaethol newydd, cyflwyno Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro strategaeth i wella deilliannau unigol a chyfyngu ar y cynnydd mewn gwariant net.**

### **I bobl hŷn, y strategaeth yw sicrhau y bydd gan bobl hŷn yr isod:**

- Digon o gefnogaeth ar yr adeg iawn fel y gallant edrych ar ôl eu hunain, aros yn iach ac aros yn annibynnol cyhyd ag sydd modd.
- Cyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth i wneud dewisiadau ystyrlon am y math o help sydd ar gael pan fyddant angen mynd at gefnogaeth.
- Rheolaeth dros unrhyw gefnogaeth a dderbyniant.
- Cyfleoedd i gymryd lawn fel aelodau gweithgar o'u cymuned.

Y nod yw parhau i symud adnoddau o wasanaethau gofal preswyl cyffredinol i wasanaethau cymunedol. Bydd llawer o'r galw yr arferid ei ateb gan ofal preswyl yn cael ei ateb gan ofal yn y cartref, ond nid y cyfan. Atebir peth gan ddewisiadau eraill yn y gymuned a ddarperir gan bartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, trwy'r model gofal integredig “@home” seiliedig ar yr ardal leol.

### **Yn benodol, fe fyddwn yn:**

- Helpu'r sector gofal i symud oddi wrth ofal preswyl cyffredinol tuag at ofal yn y cartref a hyrwyddo datblygu gofal preswyl a nyrsio dementia o safon uchel ychwanegol erbyn Rhagfyr 2022
- Adolygu'r arferion gorau mewn cartrefi preswyl dementia a nyrsio fel sail i gomisiynu yn y dyfodol erbyn Mehefin 2022

### **I oedolion 18-64 sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau,**

y strategaeth yw galluogi pobl i gael bywyd o ansawdd da yn unol â'u dyheadau. Mae hyn yn golygu byw yn lleol lle maent yn “teimlo'n dda ac yn iach,” lle rhoddir gwerth arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys yn eu cymunedau. Mae hefyd yn golygu sicrhau y gall pob unigolyn fynd at y gefnogaeth briodol sy'n sicrhau fod ganddynt annibyniaeth, dewis a rheolaeth dros eu bywydau gan gynnwys cyfleoedd i weithio. I wneud hyn, sefydlodd y rhanbarth bedwar egwyddor:


- Beth sy'n bwysig i mi – Mae hyn yn golygu gwrandao ar a gweithio gyda phobl sydd angen gofal a chefnogaeth.
- Gartref yn gyntaf – Mae hyn yn golygu galluogi pobl i fyw gartref neu mor agos at gartref ag sydd modd gyda'r gefnogaeth i fod yn annibynnol
- Osgoi niwed, gwastraff ac amrywio – Mae hyn yn golygu sicrhau gofal o ansawdd uchel ar draws yr holl wasanaethau.

Mae'r egwyddorion hyn yn hollol gydnaws a'r fframwaith deilliannau cenedlaethol i bobl sydd angen a chefnogaeth ac i ofalwyr di-dâl sydd angen cefnogaeth, 2020-2021.

## Cynnydd Diweddar (Gwasanaethau i Oedolion a Phobl Hŷn)

Araf fu'r cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf i gefnogi mwy o bobl gartref ac i symud adnoddau o ddewisiadau preswyl i ddewisiadau yn y gymuned. Dangosir hyn gan y graff isod gyda data o 2016-17 i 2020-21. Mae'n dangos:

- Cynnydd cyson ond araf i bobl hŷn, oedolion gydag anableddau dysgu, ac oedolion sy'n byw gydag afiechyd meddwl.
- Cyfran y gwariant ar ofal preswyl a nyrsio wedi cynyddu i oedolion ag anableddau corfforol.



I wneud cynnydd yn gynt dros y 5 mlynedd nesaf, rhaid i weithgaredd i ddatblygu a llunio'r farchnad fod mewn partneriaeth a'r farchnad gofal a chefnogaeth leol. Mae'r adroddiad am sefydlogrwydd y farchnad yn amlinellu'r heriau sy'n ein hwynebu a'n cynlluniau i ymdrin â hwy.

## 4.6 Strategaeth Ranbarthol - Plant a Phobl Ifanc

**I blant, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr,** y strategaeth yw sicrhau agweddau atal ac ymyriad cynnar i wella deilliannau yn y tymor byr a'r tymor hir i blant a theuluoedd, fel bod llai o blant angen "Derbyn Gofal" (PDG). Gwneir hyn trwy fynd ati i atal anghenion rhag gwaethygu, ymateb yn sydyn pan fo plant a'u teuluoedd mewn argyfyngau a gostwng gwasanaethau i lawr i lefel isel yn brydlon a diogel lle bo modd. I wneud hyn byddwn yn:

- Gweithio i gynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu cefnogi i fyw'n ddiogel gyda'u teuluoedd.
- Lleihau yn ddiogel nifer y plant a phobl ifanc sy'n "derbyn gofal" lle bo modd.
- Rheoli risg yn hyderus a rhoi cefnogaeth ar "ymylon gofal."
- Cynyddu nifer y perthnasau sy'n ofalwyr.
- Cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol.

- Cynyddu ystod y gwasanaethau lleol i alluogi plant a phobl ifanc i aros yn eu cymunedau, cynnal rhwydweithiau a tharfu cyn lleied ag sydd modd ar eu bywydau, gan gynnwys cynyddu ystod y gwasanaethau preswyl lleol.
- Sicrhau y gwneir lleoliadau gofal preswyl **yn unig** lle mae cymhlethdod a her anghenion plentyn neu berson ifanc yn golygu na all fyw mewn teulu, neu lle mae person ifanc yn destun gorchymyn llys i'w osod mewn llety diogel. Bydd ymdrech yn canoli'n wastad ar gamu i lawr o ofal preswyl lle bynnag y bo modd.
- Sicrhau ein bod yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni "tîm o gwmpas y plentyn" mewn gwirionedd, gan ganolbwyntio dros y pum mlynedd nesaf i wella iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc trwy agwedd "dim drws anghywir".
- Darparu trosiant cadarnhaol i fyd oedolion trwy gefnogi PDG hyd at 25 oed.


### Cynydd Diweddar (Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc)

Cynyddodd nifer y PDG yn y rhanbarth o 40% mewn 6 blynedd o 946 (31/03/17) i 1,326 (31/03/22). Yn gyffredinol, bu'r cynnydd yn y modd y cefnogir y plant hyn yn dda. Er enghraifft:

- **Cefnogir 34% o PDG yn awr trwy ofal gan berthnasau a maethu mewnol, i fyny o 26% yn 2017.**
- **Cefnogir 29% o PDG yn awr gan asiantaethau maethu annibynnol, i lawr o 42% yn 2017.**
- **Mae 19% o PDG yn awr wedi eu lleoli gyda rhieni o gymharu â 14% yn 2017.**

Yr unig faes pryder yw gofal preswyl sydd wedi cynyddu 78% o ran niferoedd ac sydd yn cyfrif yna ŵr am 9% o PDG o gymharu â dim ond 7% yn 2017. Mae hyn yn amlygu prinder dewisiadau amgen i ofal preswyl pan fo gan blant anghenion cymhleth.


| Rhanbarth - PDG fesul Gwasanaeth | 31/03/2017 | 31/03/2018   | 31/03/2019   | 31/03/2020   | 31/03/2021   | 31/03/2022   | % Newid    |
|----------------------------------|------------|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|------------|
| Perthnasau                       | 98         | 139          | 173          | 203          | 241          | 265          | 170%       |
| Maethu mewnol                    | 149        | 182          | 188          | 157          | 186          | 189          | 27%        |
| Maethu allanol                   | 401        | 426          | 425          | 407          | 399          | 387          | -3%        |
| Gofal preswyl                    | 65         | 64           | 83           | 101          | 102          | 116          | 78%        |
| Lleolwyd gyda Rhieni             | 129        | 164          | 204          | 242          | 243          | 247          | 91%        |
| Byw'n Annibynnol                 | 60         | 48           | 43           | 41           | 50           | 60           | 0%         |
| Gosodwyd i Fabwysiadu            | 25         | 35           | 38           | 54           | 39           | 44           | 76%        |
| Arall                            | 19         | 17           | 30           | 20           | 17           | 18           | -5%        |
| <b>Rhanbarth - Cyfanswm PDG</b>  | <b>946</b> | <b>1,075</b> | <b>1,184</b> | <b>1,225</b> | <b>1,277</b> | <b>1,326</b> | <b>40%</b> |



## 5 Gwasanaethau Oedolion: Crynodeb o Broblemau Digonoldeb y Farchnad a Risgiau i Sefydlogrwydd

### Cyflwyniad

Crynoir isod brif broblemau digonoldeb a risgiau i sefydlogrwydd y farchnad yng gwasanaethau oedolion isod. Gweler adrannau 5.1 i 5.5 am fwy o fanylion.



## 5.1 Crynodeb o'r farchnad – Cartrefi preswyl a gofal nyrsio pobl hŷn (65+ oed)

| Beth sydd gennym yn awr  |           |            |                    |                  | Beth sydd arnom angen   |
|--|-----------|------------|--------------------|------------------|---|
| <p>Mae'r farchnad am gartrefi gofal i Bobl Hŷn yn fawr ac amrywiol. Rydym yn comisiynu gan 94 o wahanol ddarparwyr cartrefi gofal. Mae 73 o'r rhain yn y rhanbarth.</p>  |           |            |                    |                  | <p>Disgwyliwn ostyngiad graddol o 906 i 880 y flwyddyn mewn <b>lleoliadau preswyl</b> tan 2025-26. Lle byddant yn cael eu cadw, bydd angen i'r gymysgedd o fodelau preswyl newid. Bydd angen mwy o welyau arbenigol gofal dementia, a llai o welyau gofal generig.</p> <p>Disgwyliwn i nifer y <b>lleoliadau nyrsio</b> y bydd eu hangen godi 27% o 910 i 1,154 erbyn 2025-26. Mae hyn yn cynnwys yr ymchwydd mewn angen wedi COVID yn 2022 a 2023 a chynnydd cyson wedyn yn unol â modelu Anghenion Tai Pobl Hŷn yn 2018 (gweler isod).</p> <p><b>Pam ein bod yn disgwyl hyn:</b></p> <p><b>Mae proffil oedran y boblogaeth yn heneiddio.</b> Rhagfynegwyd y bydd y boblogaeth 75+ oed yn cynyddu o 54% yng Nghaerdydd ac yn y Fro rhwng 2020 a 2035. Os bydd popeth arall yr un fath, buasem yn disgwyl i'r galw am ofal preswyl/nyrsio gynyddu dros amser.</p> <p><b>Bwriad strategol Caerdydd a'r Fro yw cefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y mae'n bosib.</b> Bydd cartrefi gofal yn cael eu defnyddio'n gynyddol i gwrdd ag anghenion mwy cymhleth ac ar ddiwedd oes. Y bwriad strategol yw lleihau eu defnydd.</p> <p><b>Dengys tueddiadau 2016-17 i 2018-19 fod Caerdydd a'r Fro wedi lleihau eu defnydd o ofal preswyl o 3.4%</b> tra bod y defnydd o ofal nyrsio wedi cynyddu 9.6% yn ôl y disgwyl.</p> <p>Roedd modelu a, Asesiad 2018 o Anghenion Tai a Llety Pobl Hŷn yn rhagweld, erbyn 2035, y byddai'r angen:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn cynyddu am ofal nyrsio o 981 lle nyrsio. Mae hyn yn cyfateb i 58 o lefydd ychwanegol bob blwyddyn.</li> <li>• Yr un fath am ofal preswyl (1,175 lle) hyd 2035 felly disgwylir i'r defnydd cymharol o ofal preswyl ostwng.</li> </ul> |
| Ardal/Math   | Darparwyr | Cartrefi   | Cartrefi <20 gwely | Cyfanswm gwelyau |   |
| RC – Cardiff   | 28        | 54         | 13                 | 546              |   |
| NC – Cardiff   | 20        | 22         | 20                 | 1,333            |   |
| RC – Vale  | 17        | 31         | 9                  | 299              |   |
| NC – Vale  | 8         | 9          | 8                  | 459              |   |
| <b>Cyfanswm y Rhanbarth</b>  | <b>73</b> | <b>106</b> | <b>50</b>          | <b>2,637</b>     |   |
| <p><b>Rhyngddynt, mae'r tri awdurdod cyllido:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gwario tua £1.2m y.w. ar leoliadau i rai dros 65 (seiliedig ar giplun data Chwefror 2022) ar 1,200 o bobl.</li> <li>• Yn gwneud rhyw 90% o'r lleoliadau hyn "yn y rhanbarth".</li> <li>• Yn gwario 27% o'r gwariant gyda 5 darparwr gwahanol a 46% gyda dim ond 10 o wahanol gwmnïau darparu. Mae'r farchnad yn ddwysach nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf.</li> </ul> <p><b>Noder:</b> Roedd y data uchod yn gywir pan gymerwyd y ciplun. Ers hynny, dyfarnwyd codiadau ffioedd am 2022/23 ar sail strategaethau chwyddiant y ddau awdurdod lleol.</p> <p><b>Mae'r farchnad leol yn cael ei rhedeg i raddau helaeth gan fusnesau 'BBaCh',</b> er bod rhai darparwyr sy'n gweithredu dros Gymru a Lloegr yn y maes hefyd. Weithiau, mae'r rhain yn canolbwyntio ar gefnogi 'hunan-gyllidwyr'. Hefyd mae nifer fechan o ddarparwyr elusennol. <b>Mae BBaCh yn llai gwydn (yn ariannol a gweithredol) na busnesau mawr, ac y mae mwy o risg o adael yn ddi-drefn. Petai un o'r 5 prif ddarparwyr yn methu, byddai hyn yn anodd i'w reoli.</b></p> |           |            |                    |                  |   |

## 5.1 Crynodeb o'r farchnad – Cartrefi preswyl a gofal nyrsio pobl hŷn (65+ oed)

| Problemau a risgiau   | Casgliadau/Camau   |
|---|--|
| <p><b>Mae'r niferoedd sydd mewn cartrefi gofal wedi gwella'n sylweddol o gymharu ag Arolwg Darparwyr yr IPC ym mis Awst 2021. Yn y Fro, er enghraifft, mae lefelau'r llefydd gwag tua 13%</b> Cyn hyn, roedd COVID wedi effeithio ar y niferoedd. Yn arolwg darparwyr yr IPC (Awst 2021) soniodd y rhan fwyaf o ddarparwyr am lefelau gweithgaredd is, ac roedd gan 7/11 o gartrefi gofal y Fro a 5/12 o rai Caerdydd lefelau preswylwyr is na'r hyn a ystyriwyd yn gynaliadwy ganddynt.</p> <p><b>Rhododd 3 busnes cartref gofal bach yn y Fro y gorau i fasnachu llynedd.</b> Effeithiodd hyn fymryn ar y llefydd oedd ar gael.</p> <p><b>Mae llawer o swyddi gwag mewn cartrefi gofal.</b> Yn arolwg darparwyr yr IPC (Awst 2021) roedd gan gartrefi Caerdydd 2% o lwyddi gwag a chartrefi'r Fro 6%.</p> <p><b>Mae cartrefi gofal yn dal i ddweud na fedrant recriwtio/cadw'r staff sydd ei angen.</b> Mae hyn yn effeithio ar sefydlogrwydd y farchnad trwy gyfyngu ar eu gallu i fod yn hyfyw a chwrrd ag anghenion cefnogaeth cynyddol y trigolion.</p> <p><b>Mae diffyg hyder ymysg darparwyr cartrefi gofal.</b> Yn arolwg darparwyr yr IPC (Awst 2021) roedd 60% o gartrefi gofal y Fro a 67% o rai Caerdydd yn disgwyl i gostau gynyddu yn y flwyddyn nesaf. Dim ond 33% oedd yn disgwyl mwy o weithgaredd gan awdurdodau lleol neu hunan-gyllidwyr. <b>Mae hyn yn bygwth sefydlogrwydd y farchnad.</b> I liniaru'r risg hon, cytunwyd ar ffioedd uwch na chyfradd chwyddiant yn y Fro a Chaerdydd am 2022-23. Gostyngodd hyn rywfaint ar y risg, ond byddwn yn dal i gadw golwg ar y ffioedd.</p> <p><b>Mae mwy fyth o brinder gweithwyr gwasanaethau gofal cartref.</b> Yn arolwg darparwyr yr IPC (Awst 2021): O'r rhai a ymatebodd, crybwyllodd darparwyr Caerdydd 11% o swyddi gwag, a'r Fro 10%.</p> <p>Arweiniodd hyn at restrï aros am ofal cartref. Mae'r adran am ofal cartref yn ymdrin yn llawn ag effaith hyn, ond un effaith yw y defnyddir cartrefi gofal pan na fyddent yn ddewis cyntaf i ateb anghenion rhai pobl</p> <p>Mae hyn yn rhwystr i'r nod o gefnogi mwy o bobl hŷn yn y gymuned a llai mewn gofal preswyl, ac yn cyfyngu ar y gallu i ailfodelu cartrefi gofal i'w defnyddio'n fwy hyblyg, a hybu gallu cefnogaeth gymunedol a chadw digon o welyau i fod ar gael pan fydd eu hangen.</p> | <p><b>Effeithiwyd ar sefydlogrwydd y farchnad cartrefi gofal i bobl hŷn gan ymddiriedaeth yn y sector oherwydd COVID a phryder am gyllid, cynnydd mewn costau a phrinder staff/sgiliau.</b> Mae denu buddsoddiad preifat i ailfodelu gallu gofal preswyl generig dros ben a chynyddu'r gallu mewn gofal nyrsio a dementia yn her. Mae hyn yn rhwystr sy'n ei gwneud yn fwy anodd i ni ymdrin â phrinderau lle nad yw'r farchnad yn ddigonol.</p> <p>Mae'r cynnydd mewn lefelau preswyl ynghyd â'r cytundeb diweddar am gynyddu ffioedd cartrefi gofal wedi lliniaru rhywfaint ar y risgiau hyn, ond rhaid dal i fod yn wylidwrs.</p> <p><b>Camau – Byddwn yn parhau i:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella ein gallu i fodelu er mwyn deall yn well faint o welyau cartrefi gofal fydd arnon eu hangen yn y dyfodol.</li> <li>• Gweithredu newid ar draws gwasanaethau iechyd a gofal i gynyddu atal ac ail-alluogi yn unol â rhaglen “@Home” i arafu cyfradd y galw am ofal preswyl a nyrsio.</li> <li>• Gweithredu agweddau newydd mwy cydweithredol at gomisiynu. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r arferion gorau mewn cartrefi preswyl dementia a nyrsio yn haf 2022 i fod yn sail o wybodaeth i gomisiynu yn y dyfodol.</li> <li>• Monitro lefelau ffioedd cartrefi gofal a sicrhau bod y cyfraddau a dalwn yn deg a chynaliadwy, fel bod gan ein darparwyr yr hyder i fuddsoddi mewn datblygu eu modelau gwasanaeth.</li> <li>• Helpu'r sector gofal i symud oddi wrth gartrefi gofal preswyl cyffredinol tuag at ofal yn y cartref a hyrwyddo datblygu gofal preswyl dementia a gofal nyrsio o ansawdd uchel erbyn mis Rhagfyr 2022.</li> </ul> |

## 5.2 Crynodeb o'r farchnad - Gofal cartref i oedolion 18 a hŷn

| Beth sydd gennym yn awr   | Beth sydd arnom angen  |
|---|--|
| <p><b>Ar hyn o bryd, mae'r farchnad gofal cartref yn fawr ac amrywiol.</b> Mae 81 o ddarparwyr gofal cartref cofrestredig yng Nghaerdydd a'r Fro: 63 yng Nghaerdydd ac 18 yn y Fro.</p> <p><b>Rhyngddynt, mae'r tri awdurdod cyllido</b> yn gwario tua £0.934m y.w. ar ofal cartref. Mae hyn yn prynu oddeutu 52,600 o oriau y.w. gan 87 darparwr, sy'n rhoi cyfradd gyfun yr awr ar gyfartaledd o £17.75 (seiliedig ar ddata a ddarparwyd cyn cytuno ar gynnydd chwyddiant 22/23). Mae 43,834 o'r oriau hyn yn cael eu rhoi gan 68 darparwr yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae 13 o ddarparwyr seiliedig yng Nghaerdydd / Y Fro heb fod yn darparu unrhyw ofal a gomisiynwyd i'r tri awdurdod cyllido ar hyn o bryd.</p> <p><b>Mae'r farchnad leol yn cael ei rhedeg i raddau helaeth gan gwmnïau BBaCh cyfyngedig, ond mae nifer fwy o ddarparwyr elusennol na'r farchnad seiliedig ar welyau.</b> Mae BBaCh a darparwyr elusennol bach yn llai gwydn na darparwyr mawr, <b>felly rhaid cynllunio am y risg y bydd rhai yn gadael y farchnad yn ddi-drefn.</b></p> <p><b>Mae'r farchnad yn ddwysach nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf.</b> Aiff tua 20% o'r gwariant ar ddim ond 5 o wahanol gwmnïau darparu, ac y mae rhyw 35% gyda 10 o gwmnïau darparu. Gallai fod yn anodd rheoli methiant unrhyw un o'r darparwyr mawr hyn. Fodd bynnag, <b>mae hyn yn llai dwys nag yn y farchnad seiliedig ar welyau.</b> Y mae hyn yn gostwng i risg o ansefydlogi'r farchnad petai un darparwr mawr yn methu neu'n tynnu'n ôl, ond mae'n dal yn bwysig i ni fod a chynlluniau wrth gefn rhag ofn i hyn ddigwydd.</p> <p><b>Nid yw mynediad at ofal cartref yn gyfartal ym mhob rhan o'r rhanbarth.</b> Mae hyn yn arbennig o wir yn y Fro orllewinol wledig, gan mai mewn canolfannau trefol fel y Barri a Phenarth y mae rhai asiantaethau yn gweithredu.</p> <p><b>Mae diffyg darparwyr gofal cartref sy'n arbenigo mewn gofal dementia</b> (un yn unig sydd yn y Fro) yn golygu bod yn rhaid i rai pobl y byddai modd eu cefnogi gartref symud yn gynamserol i gartref gofal.</p> | <p>Mae arnom angen mwy o becynnau gofal cartref, bydd y pecyn gofal cyfartalog yn fwy, a bydd angen i staff gofal cartref feddu ar fwy o sgiliau. Rydym yn disgwyl ymchwydd yn y galw wedi COVID yn 2022/23. Rydym yn cynyddu nifer y pecynnau newydd o 5% (200 pecyn) yn dechrau o 2021/22 trwodd at 2025/26. O ran oriau mae hyn yn golygu fod angen i ni gomisiynu tua 3,500 o oriau (+7%) yn fwy bob wythnos i gwrdd â'r galw disgwyliedig yn 2025/26.</p> <p><b>Pam ein bod yn disgwyl hyn:</b></p> <p><b>Mae proffil oedran y boblogaeth yn heneiddio.</b> Rhagfynegwyd y bydd y boblogaeth 75+ oed yn cynyddu o 54% yng Nghaerdydd ac yn y Fro rhwng 2020 a 2035. Os bydd popeth arall yr un fath, buasem yn disgwyl i'w galw am ofal cartref gynyddu dros amser. Hefyd, <b>nod strategol Caerdydd a'r Fro yw cefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag sydd modd.</b></p> <p><b>Gallai hyn olygu bod y galw am ofal cartref yn cynyddu'n gynt na'r hyn a awgrymir gan y ddemograffeg.</b> I wrthweithio hyn, yr agwedd strategol yng Nghaerdydd a'r Fro yw (1) oedi'r oed y bydd angen cefnogaeth gysylltiedig ag oedran trwy fesurau iechyd cyhoeddus, a (2) defnyddio ail-alluogi pan fydd pobl angen cefnogaeth am y tro cyntaf i leihau anghenion cefnogaeth cyson.</p> <p><b>I oedolion iau gydag anabledd corfforol, anableddau dysgu, awtistiaeth neu anghenion eraill tymor-hwy, yr un yw'r nod.</b> Rydym eisiau cefnogi mwy o bobl i fyw yn annibynnol mewn cymunedau lleol, lleihau'r angen am ofal ffurfiol lle bo hynny'n bosib, a lleihau'r defnydd o fodelau gofal seiliedig ar welyau.</p> |

## 5.2 Crynodeb o'r farchnad - Gofal cartref i oedolion 18 a hŷn

| Problemau a risgiau  | Casgliad/Camau  |                            |              |               |         |           |                        |       |       |        |        |  |       |       |        |        |                                |      |      |        |        |                                      |      |       |        |        |                                     |             |             |              |               |
|--|---|----------------------------|--------------|---------------|---------|-----------|------------------------|-------|-------|--------|--------|--|-------|-------|--------|--------|--------------------------------|------|------|--------|--------|--------------------------------------|------|-------|--------|--------|-------------------------------------|-------------|-------------|--------------|---------------|
| <p><b>Cafodd darparwyr gofal cartref (GC) eu taro'n galed adeg COVID.</b> Yn arolwg darparwyr yr IPC (Awst 2021) gwelodd rhyw 50% o ddarparwyr lai o oriau yn cael eu prynu gan awdurdodau lleol, hunan-gyllidwyr a'r bwrdd iechyd. Gostyngodd oriau i ofal pobl hŷn yn fwy o lawer nag i oedolion 18-64 oed.</p> <p><b>Dyweddodd pawb fod mwy o gostau wedi dod i'w rhan</b> (staff, yswiriant, PPE etc). Bu'n rhaid i 35% yng Nghaerdydd a 73% yn y Fro roi staff ar ffyrlo. Cymerodd 35% yng Nghaerdydd a 9% yn y Fro fenthyciadau er mwyn goroesi.</p> <p><b>Mae darparwyr GC yn hyderus y daw'r galw'n ôl.</b> Yn arolwg darparwyr yr IPC (Awst 2021), roedd tua 65% yng Nghaerdydd a'r Fro yn rhagweld mai cynyddu fyddai gweithgaredd a gyllidir gan awdurdodau lleol yn 2022-23. Mae 43% yng Nghaerdydd a 70% yn y Fro yn disgwyl i weithgaredd hunan-gyllidwyr gynyddu. Mae 42% yng Nghaerdydd a 30% yn y Fro yn disgwyl i weithgaredd a gyllidir gan y bwrdd iechyd i gynyddu. Mae 73% o ddarparwyr y Fro a 50% o rai Caerdydd yn disgwyl recriwtio mwy o staff a bwriada 81% o ddarparwyr y Fro a 63% o rai Caerdydd gynyddu hyfforddiant staff. <b>Bydd hyn yn bosib yn unig os bydd ffioedd yn codi hefyd i dalu am gyflogau, costau hyfforddi, etc.</b></p> <p><b>Mae prinder staff dybryd ymysg darparwyr GC.</b> Yn arolwg darparwyr yr IPC (Awst 2021), gwelwyd 11% o swyddi gwag yng Nghaerdydd a 10% yn y Fro. Dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr na allant recriwtio'r staff angenrheidiol. Mae rhestr aros am GC (120 yng Nghaerdydd, 67 yn y Fro). Mae hyn yn cyfyngu ar allu darparwyr i gwrdd â'r cynnydd yn y galw. Heb y gefnogaeth iawn yn y cartref ar yr adeg iawn, gall anghenion pobl gynyddu, gall teuluoedd sy'n ofalwyr fod dan bwysau, bydd oedi cyn rhyddhau o'r ysbty, a gellir defnyddio gofal preswyl fel dewis mwy diogel nag anfon rhywun adref heb ddigon o ofal. Os na all darparwyr GC gael y staff gyda'r sgiliau angenrheidiol, bydd hyn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tanseilio cynlluniau i gefnogaeth mwy o bobl hŷn yn y gymuned a chefnogi llai mewn gofal preswyl.</li> <li>Cyfyngu ar gyfle cartrefi gofal i ddatblygu gwasanaethau newydd.</li> <li>Cyfyngu ar gynlluniau i gefnogi mwy o oedolion ifanc "yn yr Ardal" gan nad oes digon o ddarparwyr â'r sgiliau iawn yn y gymuned.</li> </ul> | <p><b>Nid oes digon o ofal cartref yn awr. Gyda'r galw'n cynyddu, gwaethygu wnaiff y bwllch hwn yng ngallu'r farchnad dros y blynyddoedd nesaf.</b> Gall y bwllch hwn arwain at ddeilliannau gwaeth i bobl ar restrau aros am nad yw eu hanghenion yn cael eu hateb, a gall gynyddu costau gofal yn y tymor byr a'r tymor hir, yn enwedig os defnyddir gwelyau ysbytai neu gartrefi gofal drutach i gau unrhyw fylchau yn y gwasanaeth.</p> <p><b>Mae'r farchnad gofal cartref hefyd yn wynebu heriau sefydlogrwydd oherwydd prinder gweithwyr a phryder darparwyr na fydd ffioedd yn talu'n llawn am gost chwyddiant.</b> Nododd ymatebion darparwyr i arolwg yr IPC (Awst 2021) bedwar ateb cyffredin am yr hyn fyddai fwyaf o help iddynt yn y dyfodol: Ffioedd uwch, mwy o weithgaredd wedi'i gyllido gan awdurdodau lleol, cefnogaeth i recriwtio a chadw, a mwy o weithgaredd hunan-gyllidwyr. Yng Nghaerdydd roedd pwyslais hefyd ar agweddau newydd at gomisiynu.</p> <table border="1" data-bbox="1133 821 2092 1201"> <thead> <tr> <th>Beth fyddai'n helpu fwyaf?</th> <th>Y Fro</th> <th>Caerdydd</th> <th>Y Fro %</th> <th>Caerdydd%</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Lefelau uwch o ffioedd</td> <td>12/21</td> <td>16/29</td> <td>57.14%</td> <td>55.17%</td> </tr> <tr> <td>Mwy o leoliadau/ oriau wedi eu cyllido gan ALI</td> <td>10/21</td> <td>16/29</td> <td>47.62%</td> <td>55.17%</td> </tr> <tr> <td>Cefnogaeth i recriwtio a chadw</td> <td>8/21</td> <td>7/29</td> <td>38.10%</td> <td>24.14%</td> </tr> <tr> <td>Mwy o leoliadau/ oriau hunan-gyllido</td> <td>7/21</td> <td>11/29</td> <td>33.33%</td> <td>37.93%</td> </tr> <tr> <td><b>Agweddau newydd at gomisiynu</b></td> <td><b>2/21</b></td> <td><b>9/29</b></td> <td><b>9.52%</b></td> <td><b>31.03%</b></td> </tr> </tbody> </table> <p><b>Camau – Byddwn yn parhau i:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Wella ein gallu modelu i ddeall y well yr angen tebygol am ofal cartref yn y dyfodol.</li> <li>Cynyddu atal ac ail-alluogi yn unol â rhaglen "@Home".</li> <li>Rhoi agweddau newydd mwy cydweithredol ar waith at gomisiynu gan gynnwys cytuno ar lefelau teg o ffioedd.</li> </ul> | Beth fyddai'n helpu fwyaf? | Y Fro        | Caerdydd      | Y Fro % | Caerdydd% | Lefelau uwch o ffioedd | 12/21 | 16/29 | 57.14% | 55.17% | Mwy o leoliadau/ oriau wedi eu cyllido gan ALI | 10/21 | 16/29 | 47.62% | 55.17% | Cefnogaeth i recriwtio a chadw | 8/21 | 7/29 | 38.10% | 24.14% | Mwy o leoliadau/ oriau hunan-gyllido | 7/21 | 11/29 | 33.33% | 37.93% | <b>Agweddau newydd at gomisiynu</b> | <b>2/21</b> | <b>9/29</b> | <b>9.52%</b> | <b>31.03%</b> |
| Beth fyddai'n helpu fwyaf?   | Y Fro   | Caerdydd                   | Y Fro %      | Caerdydd%     |         |           |                        |       |       |        |        |  |       |       |        |        |                                |      |      |        |        |                                      |      |       |        |        |                                     |             |             |              |               |
| Lefelau uwch o ffioedd   | 12/21   | 16/29                      | 57.14%       | 55.17%        |         |           |                        |       |       |        |        |  |       |       |        |        |                                |      |      |        |        |                                      |      |       |        |        |                                     |             |             |              |               |
| Mwy o leoliadau/ oriau wedi eu cyllido gan ALI   | 10/21   | 16/29                      | 47.62%       | 55.17%        |         |           |                        |       |       |        |        |  |       |       |        |        |                                |      |      |        |        |                                      |      |       |        |        |                                     |             |             |              |               |
| Cefnogaeth i recriwtio a chadw   | 8/21  | 7/29                       | 38.10%       | 24.14%        |         |           |                        |       |       |        |        |  |       |       |        |        |                                |      |      |        |        |                                      |      |       |        |        |                                     |             |             |              |               |
| Mwy o leoliadau/ oriau hunan-gyllido   | 7/21  | 11/29                      | 33.33%       | 37.93%        |         |           |                        |       |       |        |        |  |       |       |        |        |                                |      |      |        |        |                                      |      |       |        |        |                                     |             |             |              |               |
| <b>Agweddau newydd at gomisiynu</b>  | <b>2/21</b>   | <b>9/29</b>                | <b>9.52%</b> | <b>31.03%</b> |         |           |                        |       |       |        |        |  |       |       |        |        |                                |      |      |        |        |                                      |      |       |        |        |                                     |             |             |              |               |

## 5.3 Crynodeb o'r farchnad – Cartrefi gofal preswyl a nyrsio i oedolion (18-64 oed)

| Beth sydd gennym yn awr   |           |            |                    |                  | Beth sydd arnom angen  |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |
|---|-----------|------------|--------------------|------------------|--|-----------|----------|--------------------|------------------|---------------|----|----|----|-----|---------------|----|----|---|----|------------|----|----|----|-----|------------|---|---|---|---|-----------------------------|-----------|------------|-----------|------------|
| <p><b>Mae'r farchnad am gartrefi gofal pobl iau yn weddol amrywiol</b> Busnesau "BBaCh" ydynt yn bennaf, er bod rhai darparwyr mawr 'Cenedlaethol' yn gweithredu. <b>Mae nifer fechan hefyd o ddarparwyr elusennol. Mae'r nifer uchel number o leoliadau "allan o'r ardal"</b> yn amlygu diffyg y gallu "yn yr ardal" ac y mae oblygiadau cost i hyn am fod a "premiwm pris" o gymharu â'r ddarpariaeth leol. Mae Caerdydd a'r Fro yn comisiynu gan 94 o wahanol ddarparwyr cartrefi gofal. Mae 73 o'r rhain yn y rhanbarth.</p>  |           |            |                    |                  | <p><b>Yr ydym yn disgwyl:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>y bydd angen 5% o gynnydd mewn gallu lleoliadau preswyl newydd o 2021/22 (304 lleoliad) i 2025/26 (318)</li> <li>20% o gynnydd yn yr angen am leoliadau gofal nyrsio o 2021/22 (41lleoliad) i 2025/26 (49)</li> </ul> |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |
| <p><b>Pam ein bod yn disgwyl hyn:</b></p> <p>Bydd mwy o bobl yn dewis gofal lefel nyrsio yn y cartref. Mae hyn yn cyfyngu ar y galw newydd am ofal nyrsio seiliedig ar welyau. Fodd bynnag, disgwylir ymchwydd bychan wedi COVID yn ôl i lefelau 2019 yn 2022-23. Dilynir hyn gan <b>gynnydd graddol yn yr angen am ofal nyrsio</b> oherwydd demograffeg yng Nghaerdydd tra disgwylir i'r galw fod yn wastad yn y Fro.</p> <p>Y nod strategol yw dod a phobl yn ôl o "allan o'r ardal" i'w cefnogi mewn cynlluniau tai, ond bydd <b>angen gallu gofal preswyl o hyd yn enwedig i gefnogi pobl â dementia cynnar.</b></p> <p><b>Mae rhagfynegiadau poblogaeth yn rhagweld cynnydd yn nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n hysbys i wasanaethau o 16 y.f. yng Nghaerdydd tra rhagwelir y bydd poblogaeth y Fro yn aros yn sefydlog.</b> Rhagwelir cynnydd mewn pobl &gt;65 oed yn y naill ardal a'r llall, sef tua 5 yn fwy bob blwyddyn. Disgwylir i'r bobl hyn fod angen mwy o gefnogaeth wrth iddynt fynd yn hŷn gan gynnwys gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd arbenigol, e.e. dementia</p> <p><b>Y weledigaeth yw galluogi oedolion gydag anableddau dysgu neu anableddau eraill gael ansawdd bywyd da.</b> Mae hyn yn golygu byw yn lleol lle maent yn teimlo'n dda ac yn iach, fod gwerth arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys yn eu cymunedau. Y nod yw mwy o gefnogaeth yn y gymuned bod yn llai o ofal seiliedig ar welyau. Dengys <b>tueddiadau gweithgaredd diweddar</b> beth cynnydd rhwng 2016-17 a 2018-19: Gostyngodd gofal nyrsio o 9.4% yng Nghaerdydd (32 i 29) ac o 13.3% yn y Fro (15 i 13), tra bod y defnydd o <b>ofal preswyl</b> yn statig (194) yng Nghaerdydd ac wedi codi o 10% yn y Fro (90 i 99).</p> |           |            |                    |                  |  |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |
| <table border="1"> <thead> <tr> <th>Ardal/Math</th> <th>Darparwyr</th> <th>Cartrefi</th> <th>Cartrefi &lt;20 gwely</th> <th>Cyfanswm gwelyau</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>GP - Caerdydd</td> <td>28</td> <td>54</td> <td>42</td> <td>254</td> </tr> <tr> <td>GN - Caerdydd</td> <td>20</td> <td>22</td> <td>2</td> <td>29</td> </tr> <tr> <td>GP – Y Fro</td> <td>17</td> <td>31</td> <td>22</td> <td>117</td> </tr> <tr> <td>GN – Y Fro</td> <td>8</td> <td>9</td> <td>1</td> <td>8</td> </tr> <tr> <td><b>Cyfanswm y Rhanbarth</b></td> <td><b>73</b></td> <td><b>106</b></td> <td><b>67</b></td> <td><b>408</b></td> </tr> </tbody> </table>   |           |            |                    |                  | Ardal/Math   | Darparwyr | Cartrefi | Cartrefi <20 gwely | Cyfanswm gwelyau | GP - Caerdydd | 28 | 54 | 42 | 254 | GN - Caerdydd | 20 | 22 | 2 | 29 | GP – Y Fro | 17 | 31 | 22 | 117 | GN – Y Fro | 8 | 9 | 1 | 8 | <b>Cyfanswm y Rhanbarth</b> | <b>73</b> | <b>106</b> | <b>67</b> | <b>408</b> |
| Ardal/Math  | Darparwyr | Cartrefi   | Cartrefi <20 gwely | Cyfanswm gwelyau |  |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |
| GP - Caerdydd   | 28        | 54         | 42                 | 254              |  |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |
| GN - Caerdydd   | 20        | 22         | 2                  | 29               |  |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |
| GP – Y Fro  | 17        | 31         | 22                 | 117              |  |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |
| GN – Y Fro  | 8         | 9          | 1                  | 8                |  |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |
| <b>Cyfanswm y Rhanbarth</b>   | <b>73</b> | <b>106</b> | <b>67</b>          | <b>408</b>       |  |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |
| <p>Mae hyn yn cynnwys <b>43 gwely mewn Gwasanaethau Preswyl Arbenigol</b> - unedau bychain dan arweiniad nyrsys wedi eu cofrestru fel ysbytai i bobl na ellir cefnogi eu hanghenion yn ddigonol mewn gofal cymdeithasol.</p> <p><b>Mae'r tri awdurdod cyllido</b> yn gwario tua £0.811m yr wythnos ar leoliadau i rai dan 65 (seiliedig ar ddata ciplun) i gefnogi dros 400 o bobl. <b>Mae 46% o'r lleoliadau hyn y tu allan i'r rhanbarth.</b> Nid oes gan y darparwyr mwyaf unrhyw gartrefi yn y rhanbarth. Mae'n ddarparwr 'arbenigol'. <b>Mae hyn yn amlygu diffyg digonoldeb y farchnad leol i oedolion 18-65 oed gydag anghenion cymhleth.</b></p> <p><b>Mae'r farchnad yn ddwysach na'r ymddengys ar yr olwg gyntaf.</b> Mae 26% o'r gwariant gyda dim ond 5 o ddarparwyr ac 58% gyda 10 darparwr. <b>Mae risg glir y gallai methiant un neu ddau o ddarparwyr mawr ddadsefydlogi'r farchnad hon.</b></p>  |           |            |                    |                  |  |           |          |                    |                  |               |    |    |    |     |               |    |    |   |    |            |    |    |    |     |            |   |   |   |   |                             |           |            |           |            |

## 5.3 Crynodeb o'r farchnad – Cartrfedi gofal preswyl a nyrsio i oedolion (18-64 oed)

| Problemau a risgiau  | Casgliadau/Camau   |
|--|--|
| <p><b>Mae diffyg gallu lleoliadau i oedolion</b> ac yn arbennig y diffyg gallu i gefnogi oedolion ag anghenion cymhleth yn arwain at ormod o alw am leoliadau cartrefi gofal.</p> <p><b>Mae ar ddarparwyr BBaCh newydd angen mwy o gefnogaeth.</b> Er enghraifft, soniodd un BBaCh am ddiffyg cefnogaeth gan gomisiynwyr ac oedi mewn cyfathrebu gan gomisiynwyr wedi creu rhwystrau enfawr i fynd i'r farchnad. Roedd perygl felly i'r fenter newydd fethu cyn cychwyn.</p> <p><b>Mae'r diffyg gallu yn y rhanbarth i letya a gofalu am oedolion iau gydag anghenion cymhleth wedi arwain at 46% o leoliadau yn cael eu gwneud "allan o'r ardal" (AOA).</b> Mae angen mwy o wasanaethau arbenigol mewn anableddeu dysgu, awtistiaeth ac iechyd meddwl.</p> <p><b>Mae'r diffyg gallu "yn yr ardal" yn creu marchnad i werthwyr, gan wneud lleoliadau AOA yn ddrutach</b> a gall gael effaith negyddol ar ddeilliannau oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ei fod yn gwahanu pobl yn gorfforol oddi wrth eu teuluoedd, cyfeillion a chymunedau eu cartrefi, ac yn gwanhau eu cylchoedd cefnogaeth naturiol.</li> <li>• Mae'n fwy anodd (a mwy costus) monitro ansawdd gofal a chefnogaeth o bell.</li> <li>• Mae lleoliad AOA ar gyfartaledd yn costio mwy, e.e. mae'r lleoliad AOA cyfartalog yn costio £2,089 y.w. o gymharu â £1,683 "yng" Nghaerdydd a £2,049 "yn" y Fro.</li> </ul> | <p><b>Does dim digon o allu yn y farchnad yn y rhanbarth i ateb anghenion gofal preswyl a nyrsio oedolion 18-64 oed.</b> Y bylchau mwyaf nodedig yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gwasanaethau "yn yr ardal" anableddeu dysgu/ASA arbenigol i oedolion 18-64 oed.</b> Mae hyn yn arwain at leoliadau AOA ac er ei bod yn anodd cyfiawnhau datblygu gallu "yn yr ardal" i rai gwasanaethau arbenigol ar y sail nad oes digon o alw yn y rhanbarth, y mae grwpiau o bobl gydag anghenion cefnogaeth tebyg y gellid (os yw hyn yn gydnaws) eu dwyn yn ôl a'u cefnogi gan wasanaethau bychain arbenigol "yn yr ardal"</li> <li>• <b>Gwasanaethau gofal cartref a phreswyl arbenigol i bobl dros 65 sydd â'u prif angen am gefnogaeth ym maes Anableddeu Dysgu.</b></li> <li>• <b>Gallu arbenigol mewn cartrefi gofal preswyl i gefnogi pobl iau sy'n byw â dementia a gychwynnodd yn gynnar.</b></li> </ul> <p><b>Camau – Byddwn yn parhau i:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wella ein gallu modelu i ddeall y well yr angen tebygol am gartrefi gofal yn y dyfodol.</li> <li>• Rhoi agweddau newydd mwy cydweithredol ar waith at gomisiynu gan gynnwys cytuno ar lefelau teg o ffioedd fel bod gan ddarparwyr fwy o hyder i fuddsoddi i ddatblygu eu modelau gwasanaeth.</li> <li>• Ymchwilio i fodelau partneriaeth neu ranbarthol eraill i ddatblygu'r farchnad am adnoddau arbenigol lle mae achos busnes sy'n cefnogi hyn.</li> </ul> |

## 5.4 Crynodeb o'r farchnad - Lleoliadau oedolion/bywydau a rennir

| Beth sydd gennym yn awr  | Beth sydd arnom angen   |                                 |            |         |         |                    |    |    |     |                  |    |   |      |                                     |           |           |            |
|--|---|---------------------------------|------------|---------|---------|--------------------|----|----|-----|------------------|----|---|------|-------------------------------------|-----------|-----------|------------|
| <p><b>Gelwir Lleoli Oedolion weithiau yn Fywydau a Rennir.</b> Maent yn galluogi oedolion sydd angen cefnogaeth i fyw mewn awyrgylch teulu a ddarperir gan westywyr cymeradwy.</p> <p><b>Yng Nghaerdydd, darperir y gwasanaeth hwn gan 10 mudiad awdurdod lleol neu elusennol yn bennaf:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cost wythnosol cefnogi'r 37 lleoliad tymor-hir yw £12,420 (Ar gyfartaledd £336 y.w.)</li> <li>• Mae'r darparwyr mwyaf yn cefnogi 25 o'r 37 lleoliad. Nid monopoli mo hyn, ond mae gan y darparwr gryn 'rym y gwerthwr'</li> </ul> <p><b>Yn y Fro, mae Lleoli Oedolion yn wasanaeth mewnol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ar hyn o bryd yn cefnogi 33 o leoliadau tymor-hir yn ogystal â lleoliadau seibiant/tymor-byr i bobl eraill lle bo hyn yn llesol.</li> <li>• Cost wythnosol cefnogi'r 33 lleoliad tymor-hir yw £13,280 (£402 y.w. ar gyfartaledd.)</li> </ul> <p>Yn ychwanegol at wasanaeth mewnol y Lleoliadau Oedolion yn y Fro, mae Cynghorau Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaeth dydd i anghenion cymhleth trwy leoliadau oedolion.</p> <p><b>Yn gyffredinol, mae'r rhanbarth yn cefnogi saith deg o bobl mewn lleoliadau oedolion tymor-hir. Mae hyn yn cyfateb yn fras i lefelau 2018-19 cyn y pandemig.</b> Cost cefnogi'r bobl hyn yw £25,700 yr wythnos (Cost ar gyfartaledd £367 y.w.)</p> | <p>Rydym yn disgwyl gweld dychwelyd i lefelau 2019 erbyn 2022-23 ac yna gynnydd graddol mewn lleoliadau newydd o 71 yn 2022-23 i 94 (32% yn fwy) erbyn 2025-26.</p> <p><b>Pam ein bod yn disgwyl hyn:</b></p> <p>Er i COVID effeithio ar y lleoliadau hyn, mae Caerdydd a'r Fro ill dau wedi ymrwmo i wneud mwy o ddefnydd o Leoli Oedolion yn y dyfodol.</p> <p><b>Mae Lleoli Oedolion/Bywydau a Rennir yn cael eu defnyddio yn bennaf i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu</b> er eu bod yn addas i lawer o oedolion anabl ac i bobl sy'n byw gyda salwch meddwl neu'n gwella ohono. Ar hyn o bryd, maent yn bennaf (88%) yn cefnogi oedolion dan 65 oed.</p> <p><b>Mae'r model Lleoli Oedolion/Bywydau a Rennir yn cyd-fynd yn dda â'r weledigaeth ar y cyd gan y rhanbarth o ofal iechyd / cymdeithasol</b> trwy alluogi pobl i fyw'r bywydau maent eisiau. Mae hyn yn golygu byw yn lleol lle maent yn "teimlo'n dda ac yn iach", fod gwerth arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys yn eu cymunedau. Ar waethaf y cyd-fynd da hwn, cynnydd bychan yn unig o 4% a welwyd mewn gweithgaredd rhwng 2016-17 i 2018-19.</p> <table border="1" data-bbox="1133 975 2085 1187"> <thead> <tr> <th>Lleoliadau oedolion - Rhanbarth</th> <th>2016/17</th> <th>2018/19</th> <th>% Newid</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cyfanswm 18-64 oed</td> <td>58</td> <td>62</td> <td>+8%</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm 65+ oed</td> <td>10</td> <td>9</td> <td>-10%</td> </tr> <tr> <td><b>Cyfanswm Lleoliadau Oedolion</b></td> <td><b>68</b></td> <td><b>71</b></td> <td><b>+4%</b></td> </tr> </tbody> </table> <p><b>Rhagfynegir y bydd poblogaeth yr oedolion ag anableddau dysgu yn codi</b> rhwng 2017 i 2025 erbyn 125 (+16 y flwyddyn) yng Nghaerdydd tra disgwylir i niferoedd yn y Fro aros yr un fath. Bydd y ddau ALI yn gweld cynnydd mewn pobl ag Anabledd Dysgu sy'n 65+ oed. Gallai rhai o'r bobl hyn hyn gydag Anabledd Dysgu elwa o'r agwedd o leoli oedolion.</p> | Lleoliadau oedolion - Rhanbarth | 2016/17    | 2018/19 | % Newid | Cyfanswm 18-64 oed | 58 | 62 | +8% | Cyfanswm 65+ oed | 10 | 9 | -10% | <b>Cyfanswm Lleoliadau Oedolion</b> | <b>68</b> | <b>71</b> | <b>+4%</b> |
| Lleoliadau oedolion - Rhanbarth  | 2016/17   | 2018/19                         | % Newid    |         |         |                    |    |    |     |                  |    |   |      |                                     |           |           |            |
| Cyfanswm 18-64 oed   | 58  | 62                              | +8%        |         |         |                    |    |    |     |                  |    |   |      |                                     |           |           |            |
| Cyfanswm 65+ oed   | 10  | 9                               | -10%       |         |         |                    |    |    |     |                  |    |   |      |                                     |           |           |            |
| <b>Cyfanswm Lleoliadau Oedolion</b>  | <b>68</b>   | <b>71</b>                       | <b>+4%</b> |         |         |                    |    |    |     |                  |    |   |      |                                     |           |           |            |

## 5.4 Crynodeb o'r farchnad - Lleoliadau oedolion/bywydau a rennir

| Problemau a risgiau   | Casgliadau/Camau  |
|---|---|
| <p><b>Cafodd COVID effaith drom ar leoliadau oedolion.</b> Torrodd llawer i lawr ac roedd yn anodd sefydlu'r gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer lleoliadau newydd tra'r oedd cyfyngiadau COVID mewn grym.</p> <p><b>Mae'n her recriwtio a chadw gofaluwr lleoliadau oedolion all gefnogi pobl ag anghenion cymhleth.</b> Mae hyn yn cyfyngu ar nifer y bobl y gallwn eu cefnogi trwy'r model cefnogaeth cynhwysol hwn.</p> <p><b>I gynnal lleoliadau mae'n bwysig cael gwasanaethau ymateb brys ar gael.</b> Rhaid i'r rhain allu darparu cefnogaeth amserol pan fo ar ofalwr unigol angen cefnogaeth ychwanegol.</p> <p><b>Mae'r farchnad lleoliadau oedolion yng Nghaerdydd yn dra dibynol ar un darparwr.</b> Mae'r darparwr mwyaf yn cefnogi 25 o'r 37 lleoliad. Petai'r darparwr hwn yn gadael y farchnad yn ddi-drefn, byddai marchnad Caerdydd yn cael ei hansefydlogi.</p> <p><b>Mae Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo o wneud mwy o ddefnydd o leoliadau oedolion</b> ar yr amod y gellir cyfateb yn addas, ac mai dyma'r model gorau ar gyfer yr unigolyn. Rydym yn hyderus y gallwn ail-godi'r gwasanaeth hwn wrth i ni ddod allan o COVID.</p> | <p><b>Gwnaed y farchnad lleoliadau oedolion yn ansefydlog</b> gan effaith COVID. Mae llai o allu yn y farchnad hon oherwydd COVID. Felly:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes digon o allu mewn lleoliadau oedolion i gwrdd â'r galw.</li> <li>Defnyddir gofal preswyl weithiau lle byddai lleoliad oedolion yn ateb anghenion yr unigolyn hwnnw'n well</li> </ul> <p><b>Erys lleoliadau oedolion yn rhan allweddol o'n strategaeth i gyflwyno'r weledigaeth leol</b> o alluogi pobl i fyw'r bywydau a ddymunant yn eu cymunedau. Rydym yn hyderus y gallwn ailgodi'r gwasanaeth hwn wrth i ni ddod allan o COVID dros y blynyddoedd nesaf, a bwriadwn sicrhau y bydd gennym ddigon o adnoddau i recriwtio, hyfforddi a rhoi'r gefnogaeth gyson angenrheidiol.</p> <p><b>Bydd ein timau ymateb cymunedol amlddisgyblaethol lleoliadau oedolion</b> yn darparu cefnogaeth gofleidiol buan. Bydd ein timau yn cefnogi teuluoedd trwy anawsterau a gallant roi cefnogaeth iechyd a lles o ddydd i ddydd.</p> <p><b>Camau – Byddwn:</b></p> <p>Fel y nodwyd yn y Strategaeth Comisiynu ar y Cyd i Oedolion ag Anableddau Dysgu 2019-2024 bwriadwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Weithio gyda mudiadau sy'n darparu a phobl ag anabledd dysgu a'u gofaluwr, er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd sydd ar gael yn cadw i fyny ag anghenion a dyheadau'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau.</li> <li>Datblygu mwy o ehangder gwasanaeth trwy ymchwilio i gyfleoedd i gefnogi mentrau cymdeithasol a chydweithredol i sefydlu modelau busnes sy'n gynaliadwy, yn gost-effeithiol ac yn canoli ar y gymuned, gan gynnwys mwy o rôl i leoliadau oedolion.</li> </ul> |

## 5.5 Crynodeb o'r farchnad – Gwasanaethau eiriolaeth i oedolion

| Beth sydd gennym yn awr   |                               | Beth sydd arnom angen      |                               |                  |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |
|---|-------------------------------|----------------------------|-------------------------------|------------------|------------------|--------------|--------------|---------------|---------------------|-------------------------------|---------|---------|---------|-------|----------|-----|-----|-----|------|-----------------------|---------|---------|---------|-------|----------------|----------|----------|----------|-----|-------------------|----------|----------|----------|-----|---|
| <p><b>Mae gan y Fro 3 darparwr eiriolaeth ac y mae gan Gaerdydd 4.</b></p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Darparwyr Eiriolaeth y Fro</th> <th>Darparwyr Eiriolaeth Caerdydd</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Advocacy Matters</td> <td>Advocacy Matters</td> </tr> <tr> <td>Age Connects</td> <td>Age Connects</td> </tr> <tr> <td>Diverse Cymru</td> <td>IM Caerdydd a'r Fro</td> </tr> </tbody> </table> <p>Hefyd, mae Caerdydd yn prynu'n achlysurol gan Dewis Advocacy ar gyfer pobl â nam corfforol.</p> <p><b>Dengys data o'r Fro fod gweithgaredd wedi lleihau yn ystod COVID, ond nid ydym yn disgwyl y bydd y duedd hon yn parhau.</b> Rydym yn disgwyl mai cynyddu wnaiff yr anghenion ac y daw eiriolaeth yn bwysicach nag erioed.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Gweithgaredd Eiriolaeth y Fro</th> <th>2019-20</th> <th>2020-21</th> <th>2021-22</th> <th>Newid</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>403</td> <td>295</td> <td>226</td> <td>-44%</td> </tr> </tbody> </table> <p><b>Ar waethaf lefelau amrywiol o weithgaredd yn ystod COVID, fel y gwelir yn y tabl isod, mae gwariant ar eiriolaeth wedi cynyddu'n raddol yn y Fro tra bod contractau bloc Caerdydd wedi aros yn sefydlog</b> gyda phryniannau achlysurol yn cael eu gwneud os bydd angen gan Dewis Advocacy.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Gwariant Eiriolaeth £</th> <th>2019-20</th> <th>2020-21</th> <th>2021-22</th> <th>Newid</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cyfanswm y Fro</td> <td>£131,800</td> <td>£135,754</td> <td>£164,891</td> <td>25%</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm Caerdydd</td> <td>£257,685</td> <td>£257,685</td> <td>£257,685</td> <td>n/a</td> </tr> </tbody> </table> |                               | Darparwyr Eiriolaeth y Fro | Darparwyr Eiriolaeth Caerdydd | Advocacy Matters | Advocacy Matters | Age Connects | Age Connects | Diverse Cymru | IM Caerdydd a'r Fro | Gweithgaredd Eiriolaeth y Fro | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | Newid | Cyfanswm | 403 | 295 | 226 | -44% | Gwariant Eiriolaeth £ | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | Newid | Cyfanswm y Fro | £131,800 | £135,754 | £164,891 | 25% | Cyfanswm Caerdydd | £257,685 | £257,685 | £257,685 | n/a | <p>Rydym yn disgwyl gorfod gwneud mwy i sicrhau yr atebir anghenion unigolion am eiriolaeth yn unol ag ysbryd, yn hytrach na llythyren, Deddf GCLIC. Yn bennaf, trwy gomisiynu, dylunio a chyllido llwybrau diwniad sy'n ymboeni llai am feini prawf a throthwyau, a chanoli mwy ar yr angen am help neu "gael ein clywed"</p> <p>I wneud hyn, disgwyliwn symudiad tuag at gyd-gynhyrchu gwirioneddol gyda darparwyr a dinasyddion er mwyn datblygu strategaeth sydd yn adlewyrchu'n well wir anghenion y boblogaeth.</p> <p><b>Pam ein bod yn disgwyl hyn:</b></p> <p>Mae DAB Caerdydd a'r Fro yn amlygu'r angen i wella gwybodaeth a symleiddio mynediad at wasanaethau. Mae'r DAB yn argymhell gwell ymwybyddiaeth, arwyddo a mynediad at wahanol ffurfiau o eiriolaeth.</p> <p>Byddai darparwyr yn croesawu mwy o gyd-gynhyrchu mewn comisiynu a chontractio. Gwnaethant sylwadau am y diffyg deialog gyda chomisiynwyr wedi i'r contractau gael eu sefydlu: e.e., dywedodd un "rydym yn cyflwyno adroddiadau, ond does dim adborth"</p> <p>Yn y DAB, mae adborth gan ddinasyddion yn gyson yn canmol arferion da mewn eiriolaeth o fudiadau bychain a all gynnig cefnogaeth ymarferol i helpu pobl i fyw eu bywydau. Dywedant mai cefnogaeth, nid ail-ddyfeisio, sydd ar y mudiadau hyn ei angen.</p> <p>Mae Caerdydd a'r Fro ill dau yn cydnabod yr angen i wella mynediad at wahnaol fathau o eiriolaeth i bobl hŷn, gan gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, yn eu cynlluniau ardal.</p> <p>Fel rhanbarth, rydym yn paratoi ymarferiad tendro i bob grŵp o oedolion yn y boblogaeth am Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (EBA) yn 2022/23.</p> |
| Darparwyr Eiriolaeth y Fro  | Darparwyr Eiriolaeth Caerdydd |                            |                               |                  |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |
| Advocacy Matters  | Advocacy Matters              |                            |                               |                  |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |
| Age Connects  | Age Connects                  |                            |                               |                  |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |
| Diverse Cymru   | IM Caerdydd a'r Fro           |                            |                               |                  |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |
| Gweithgaredd Eiriolaeth y Fro   | 2019-20                       | 2020-21                    | 2021-22                       | Newid            |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |
| Cyfanswm  | 403                           | 295                        | 226                           | -44%             |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |
| Gwariant Eiriolaeth £   | 2019-20                       | 2020-21                    | 2021-22                       | Newid            |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |
| Cyfanswm y Fro  | £131,800                      | £135,754                   | £164,891                      | 25%              |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |
| Cyfanswm Caerdydd   | £257,685                      | £257,685                   | £257,685                      | n/a              |                  |              |              |               |                     |                               |         |         |         |       |          |     |     |     |      |                       |         |         |         |       |                |          |          |          |     |                   |          |          |          |     |   |

## 5.5 Crynodeb o'r farchnad – Gwasanaethau eiriolaeth i oedolion

| Problemau a risgiau   | Casgliad/Camau  |
|---|---|
| <p><b>Mae trothwyau cymhwyster yn anodd i bobl eu deall.</b> Mae hyn oherwydd bod eiriolaeth i oedolion yng Nghymru yn dameidiog, heb ddigon o adnoddau a heb ei ddiffinio'n dda. Mae gwahanol sbardunau deddfwriaethol a strategol iddo, sy'n aml yn cystadlu, ac y mae hyn yn ei gwneud yn anodd mynd at eiriolaeth.</p> <p><b>Mae'n anodd recriwtio a chadw staff oherwydd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyflogau wedi eu herydu dros y blynyddoedd diwethaf. Rhoddodd darparwyr enghreifftiau o gyllidebau sydd heb gynyddu ers 2009, a hyn yn arwain at lawer o swyddi gwag a dim digon o ymgeiswyr am swyddi.</li> <li>Mae'r ffaith fod llawer o swyddi gwag wedi arwain at ddiffyg gallu i recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, sy'n gwanhau'r gweithlu eto.</li> <li>Mae'r gweithwyr hŷn yn ymddeol, ac nid yw'r gweithlu iau yn cael ei datblygu i lenwi swyddi gwag am nad oes llawer o ddealltwriaeth am hyn fel gyrfa, ac nad yw pobl yn gwybod lle i chwilio am swyddi.</li> <li>Yn aml, nid oes gan ymgeiswyr brofiad, a fawr ddim cymwysterau.</li> </ul> <p><b>Mae heriau gyda'r gweithlu ynghyd â chynnydd yn y galw am wasanaethau a gomisiynir yn arwain at fethu ateb anghenion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae darparwyr yn sôn am lawer o bobl sydd â hawl i gefnogaeth, ond nad yw eu hanghenion yn cael eu hateb oherwydd diffyg cyflenwad.</li> <li>Nododd Materion Iechyd Meddwl angen mawr o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael. Ar hyn o bryd, mae 1 aelod o staff yn cefnogi 80 o bobl.</li> </ul> <p><b>Mae diffyg mynediad at eiriolaeth yn effeithio fwyaf ar grwpiau dan anfantais.</b> Roedd darparwyr yn teimlo mai eu gwasanaethau hwy yw un o'r pethau cyntaf i gael eu torri er mwyn gwneud arbedion, gan ei bod yn anodd profi beth a ataliwyd gan ymyriad eiriolaeth unigol.</p> <p><b>Mae diffyg sicrhau ansawdd mewn contractau.</b> Gallai hyn olygu ein bod yn comisiynu gwasanaethau o ansawdd wael a bod gwasanaethau o safon uwch yn cael eu gwasgu allan o'r farchnad. Soniodd un darparwr am wario £2,500 y.f. ar sicrhau ansawdd mewnol.</p> | <p><b>Nid oes digon o allu mewn eiriolaeth i oedolion</b> i gwrdd â'r anghenion cymwys presennol. Mae sicrhau bod digon o allu yn y farchnad dros y 5 mlynedd nesaf yn flaenoriaeth, gan fod anghenion yn cynyddu drwy'r amser.</p> <p><b>Mae heriau'r gweithlu a lefelau cyllido yn gryn fygythiad i sefydlogrwydd y farchnad eiriolaeth i oedolion</b> dros y 5 mlynedd nesaf.</p> <p><b>Hoffai darparwyr weld adolygiad cenedlaethol o wasanaethau eiriolaeth i oedolion er mwyn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymchwilio i'r potensial i ddatblygu gwasanaeth porthol cenedlaethol fel yr un a gynigir gan y gwasanaethau plant.</li> <li>Datblygu safonau ansawdd/canllawiau sicrwydd i gomisiynwyr.</li> <li>Provide evidence for an advocacy cost/benefits case.</li> </ul> <p><b>Camau – Byddwn yn:</b></p> <p>Buddsoddi i ddatblygu strategaeth gweithlu eiriolaeth gan gynnwys hyrwyddo'r sector fel gyrfa. Fel arweinwyr systemau iechyd a gofal cymdeithasol byddwn hefyd yn cefnogi adolygiad cenedlaethol o eiriolaeth petai un yn cael ei gynnal. Yn olaf, byddwn yn datblygu agwedd hyblyg a mwy integredig at gomisiynu eiriolaeth a chefnogaeth lefel isel fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio agwedd o gyd-gynhyrchu systemig gyda rhanddeiliaid</li> <li>Ffurio perthynas bwrpasol a chydweithredol rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr.</li> <li>Rhannu cyd-ddealltwriaeth i'r hyn yw eiriolaeth a rôl benodol eiriolaeth broffesiynol annibynnol (EBA).</li> <li>Cytuno ar pryd y mae EBA yn briodol, a'i ystyried yn wastad fynd ato / ei gymhwyso ochr yn ochr â mathau eraill o eiriolaeth.</li> <li>Adeiladu sicrwydd ansawdd fel rhan o gontractio.</li> <li>Cwblhau proses dendro EBA yn 2022/23.</li> </ul> |

## 5.6. Digonoldeb gallu Gwasanaethau Oedolion i gwrdd â lefelau tebygol o angen yn y dyfodol?

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu dinasyddion, arbenigwyr trwy brofiad a staff yn y rhanbarth yn ymwneud a'r broses o ddadansoddi anghenion y boblogaeth (DAB). Maent wedi trafod pa mor fodlon ydynt â'r gwasanaethau sy'n bod eisoes a beth fydd arnynt ei angen yn y dyfodol. Hefyd, fe wnaethom<sup>4</sup> gynnal arolwg o ddarparwyr gofal a chefnogaeth oedolion a phobl hŷn yn Awst 2021. Mae'r ymchwil hwn yn rhoi llawer o wybodaeth er mwyn amcangyfrif anghenion posib y dyfodol am bob math o wasanaeth yng nghwmpas Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Hyd yma, mae ansicrwydd cysylltiedig â COVID wedi cyfyngu ar fodelu'n fanwl anghenion y dyfodol am y gwasanaethau gofal a chefnogaeth a reoleiddir i'w cymharu yn erbyn yr hyn sy'n hysbys am y gallu. Fodd bynnag, gan fod pandemig COVID bellach ar gyfnod mwy sefydlog, dyma benderfynu bod yr amser yn iawn i ddefnyddio data'r DAB ac IPC i gau'r bwlch hwn yn ein gwybodaeth cynllunio. Cynhaliwyd dau weithdy gyda Chomisiynwyr o bob cwr o'r rhanbarth. Adolygodd pob gweithdy y dystiolaeth a dod i gonsensws am lefelau tebygol yr angen am bob gwasanaeth a reoleiddir am y 5 mlynedd hyd at 2026. Gweler y tabl isod:

| Gwasanaeth  | Gallu nawr  | Defnydd nawr    | Newid i 2026 | Sylwadau am y gallu ychwanegol fydd ei angen erbyn 2026   |
|---|---|-----------------|--------------|---|
| <b>Pobl hŷn – Gofal Preswyl</b>                       | 845   | 267             | -3%          | Yn yr ardal, mae'r gallu'n ddigonol. Bydd arnom angen llai o ofal preswyl sylfaenol a mwy o ofal arbenigol, e.e. dementia a diwedd oes.   |
| <b>Pobl hŷn – Gofal Nyrsio</b>                        | 1,792   | 864             | +27%         | Yn yr ardal, mae'r gallu'n ddigonol, ond rhaid i ni ddefnyddio mwy ohono i gefnogi darparwyr i agor cyfleusterau sydd wedi eu rhoi i gadw, recriwtio staff.   |
| <b>Oedolion 18-64 – Gofal Preswyl</b>                 | 371   | 176             | +5%          | Mae nifer y llefydd yn llai pwysig na chymhlethdod yr anghenion y gellir eu hateb. Mae arnom angen llawer mwy o lefydd yn y rhanbarth i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth gan gynnwys ymddygiad sy'n gymhleth i'w gefnogi. |
| <b>Oedolion 18-64 – Gofal Nyrsio</b>                  | 37  | 28              | +20%         |   |
| <b>Lleoliadau Oedolion / Bywydau a Rennir</b>         | 70  | 70              | +32%         | Angen tua 25 yn fwy o lefydd (5 yn fwy bob blwyddyn).   |
| <b>Gwasanaethau cefnogi yn y Cartref</b> <sup>5</sup> | 68 Darparwr   | 43,834 awr y.w. | +7%          | Angen tua 12,300 awr y.w. yn fwy o allu "yn yr ardal" a gwasanaethau mwy arbenigol i ateb anghenion mwy cymhleth yn y cartref.  |
| <b>Gwasanaethau Eiriolaeth Oedolion</b>               | Yn dilyn pandemig COVID-19 ac oherwydd yr argyfwng economaidd presennol, rhagwelwn gynydd mewn angen, a bydd angen ehangu mynediad. Mae angen modelu'n fanwl y galw at y dyfodol. |                 |              |   |

<sup>4</sup> Gwnaeth y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) hyn i ni

<sup>5</sup> Ar hyn o bryd cyn comisiynu 52,638 awr o ofal cartref y.w. gan 87darparwr. Mae 68 'r darparwyr hyn sy'n rhoi 43,834 awr y.w. wedi eu lleoli yn y rhanbarth. Mae 19 y tu allan

## 5.7 Gwytnwch darparwyr yn y farchnad gofal a chefnogaeth i oedolion

**Mae'r crynodeb o ddadansoddiadau'r farchnad uchod yn dangos fod**

**marchnadoedd gofal a chefnogaeth pobl hŷn yn wynebu cryn risgiau o ran**

**sefydlogrwydd ar hyn o bryd.** Nid yw hyn yn broblem newydd: er enghraifft, nododd [adroddiad mapio sector marchnad y cartrefi gofal yng Nghymru](#) (Hydref 2015) ddwy risg allweddol (gweler isod) i farchnad y cartrefi gofal i bobl hŷn. Gellid dadlau fod y risgiau hyn yn llymach nawr nag yr oeddent yn 2015, yn rhannol oherwydd effaith COVID, er bod lefelau'r llefydd gwag yn awr wedi dychwelyd yn fras i'r hyn oeddent cyn COVID.

**Y risg gyntaf a nodwyd yn 2015 oedd y gallai un neu ddau o ddarparwyr mawr fynd i drafferthion.** Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai risg isel oedd hon am fod cyfran y farchnad o ddarparwyr mawr yng Nghymru yn gymharol isel. Mae hyn yn wir yng Nghaerdydd a'r Fro, ond dengys y dadansoddiad "Fel y Mae" fod marchnadoedd yng Nghaerdydd a'r Fro yn ddwysach o lawer nag y buasech yn tybio ar yr olwg gyntaf.

### Er enghraifft:



- Mae deg o'r darparwyr mwyaf yn y farchnad cartrefi gofal i rai 18–64 oed yn cyfrif am 58% o gyfanswm y ffioedd wythnosol yn y farchnad hon.
- Mae deg o'r darparwyr mwyaf yn y farchnad cartrefi gofal i bobl hŷn yn cyfrif am 46% o gyfanswm y ffioedd wythnosol yn y farchnad hon.
- Mae deg o'r darparwyr mwyaf yn y farchnad gofal cartref i oedolion yn cyfrif am 35% o gyfanswm y ffioedd wythnosol yn y farchnad hon.
- Mae'r darparwr lleoliadau oedolion mwyaf Nghaerdydd yn cefnogi 25 neu 67% o bob lleoliad i oedolion yng Nghaerdydd.

Felly, petai un o'r 10 darparwyr mwyaf yn unrhyw un o'r marchnadoedd uchod yn methu neu'n tynnu allan o'r farchnad yn sydyn, byddai'n anodd rheoli'r effaith, a cheid effaith negyddol ar fywydau'r bobl fyddai'n derbyn gofal.

**Yr ail risg a nodwyd yn 2015 oedd grwpiau llai a darparwyr cartrefi unigol yn cau wrth i economïau'r farchnad eu gwneud yn llai hyfyw a bod gwerthu eiddo yn fwy deniadol i berchenogion.**

Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod hyn yn risg uwch yng Nghymru. Mae'r risg yn uwch ar hyn o bryd yn y rhanbarth ganfod y marchnadoedd cartrefi gofal i oedolion a gofal cartref yn cael eu rhedeg yn bennaf gan 'BBaCh', a rhai darparwyr elusennol. Mae darparwyr o'r fath yn llai gwydn mewn amgylcheddau economaidd caled fel sy'n bodoli ar hyn o bryd. Hefyd, canfu arolwg yr IPC i ddarparwyr gofal a chefnogaeth i oedolion mai dyma oedd y sefyllfa yn Awst 2021:

- Roedd COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol am gynaliadwyedd cartrefi gofal. Roedd llawer o gartrefi wedi gweld llai o alw (o du hunan-gyllidwyr ac awdurdodau lleol) a dim ond rhai welodd lefelau uwch o alw. Mae hyn wedi gadael llawer mewn amgylchiadau ariannol bregus.
- Mae mwy o risg y bydd rhai cartrefi gofal yn gadael y farchnad yn ddi-drefn dros y 5 mlynedd nesaf oherwydd chwalfa ariannol sydyn neu os bydd perchenogion yn dewis defnyddio eu hasedau mewn sectorau mwy proffidiol. Mae hyn oherwydd y bu llawer o gartrefi gofal yn y rhanbarth yn gweithredu gyda niferoedd anghynaliadwy o drigolion, e.e. dywedodd 8/11 o gartrefi gofal yn y Fro a 7/12 yng Nghaerdydd (yn Awst 2021) fod niferoedd eu preswylwyr yn is na'r lefelau cynaliadwy.



---

Cafodd COVID-19 effaith ddifrifol hefyd ar ddarparwyr gofal cartref gan i 40%- 60% ohonynt weld gostyngiad yn y galw am oriau gan awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd. Gwelodd rhyw draean hefyd y galw o du hunan-gyllidwyr yn gostwng, er mai'r sefyllfa bresennol yw bod galw yn uwch na'r gallu oherwydd prinder gweithwyr.

Mae cynnydd mewn costau yn bygwth cynaliadwyedd ariannol gofal cartref. Dywed y rhan fwyaf o ddarparwyr i bob categori o gost gynyddu yn ystod cyfnod COVID-19 ac nad yw'r rhan fwyaf o'r rhai a gynyddodd yn debyg o gael eu gwrthdroi yn fuan.

Mae'r risg o gael darparwyr yn gadael y farchnad yn ddi-drefn oherwydd anawsterau ariannol yn fwy oherwydd iddynt ddibynnu'n drwm ar gyllid argyfwng a ddarparwyd gan y llywodraeth yn ystod COVID-19. Dengys yr ymatebion fod tua 70% o fusnesau gofal cartref yn y Fro a 35% yng Nghaerdydd wedi dibynnu i ryw raddau ar gefnogaeth ariannol brys y llywodraeth yn ystod COVID-19.

Mae cynnydd diweddar yn y niferoedd mewn cartrefi gofal ar draws y rhanbarth wrth i bethau wella ar ôl y gwaethaf o COVID-19, ynghyd a'r codiad mewn ffioedd uwchlaw cyfradd chwyddiant y cytunwyd arno'n ddiweddar am 2022-23 ac a roddwyd ar waith yn y Fro ac yng Nghaerdydd wedi lliniaru rhywfaint ar y risg hon am 2022-23. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i barhau'n wylidwrus a dal i adolygu cynaliadwyedd y ffioedd a dalwn.




# 6 Gwasanaethau Plant

## Crynodeb o Faterion Digonoldeb y Farchnad a Risgiau i Sefydlogrwydd

### Cyflwyniad

Ein nod yw adeiladu, ail-lunio ac ehangu ein darpariaeth bresennol i wella mwy ar y deilliannau i blant a phobl ifanc bregus, a'u teuluoedd/gofalwyr.

Crynohoir y prif faterion digonoldeb a risgiau sefydlogrwydd a wynebwn yn y diagram isod. Mae Adrannau 6.1 i 6.5 yn trafod y materion hyn yn fanwl.



## 6.1 Niferoedd Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG)

Fel mewn sawl rhanbarth ledled Cymru, mae niferoedd y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) wedi bod yn cynyddu yng Nghaerdydd ac ym mro Morgannwg.

TMae'r rhesymau pam fod plant yn gorfod derbyn gofal yn lluosog a chymhleth. Maent yn cynnwys camddefnydd gan y rhieni o sylweddau ac alcohol, iechyd meddwl rhieni, a thrais domestig. Mae pandemig COVID-19 a'r amodau economaidd llym presennol yn gwneud y problemau hyn yn waeth.

Cyn pandemig COVID-19, gwnaethom gyflwyno mentrau oedd i fod i leihau nifer y PDG. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, cynyddu wnaeth y niferoedd eto (gweler adran 4.6). Yn y chwe blynedd hyd at 31 Mawrth 2022, cynyddodd cyfanswm y PDG yn y rhanbarth 40%. I ddechrau, wrth i ni ddod dros COVID ac i deuluoedd brofi effeithiau'r sefyllfa economaidd ddrwg bresennol, disgwyliwn i niferoedd PDG godi cyn lefelu eto.

**Bydd y lefelau hyn yn ganlyniad i'n gwaith i ail-lunio marchnad y darparwyr, ynghyd â'n mentrau gyda phartneriaid i gefnogi plant a theuluoedd er mwyn:**


- Eu hatal rhag mynd i'r system gofal a chefnogaeth (lle bo hynny'n briodol).
- Rhoi'r dewis gofal mwyaf diogel/sy'n tarfu leiaf ar deuluoedd a'u cymunedau.

Cawsom beth llwyddiant yn hyn o beth ar waethaf heriau COVID-19 a chaledi economaidd. Er enghraifft, dair blynedd yn ôl, datganodd y Fro fwriad i atal 15 o blant rhag mynd i ofal yn 2021-22. Gwnaeth yn well na hyn, gan atal cyfanswm o 33 o blant o 21 o

deuluoedd yn 2021-22. Mae'n gadarnhaol fod yr holl blant hyn wedi aros yn eu cartrefi.

Cymerwyd 30 arall o blant i lawr o Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG)<sup>6</sup> yn 2022 hyd yma. Mae hyn yn dipyn o gamp. Mae'n dangos fod modd lliniaru'r pwysau enbyd sy'n gyrru'r angen am ofal a chefnogaeth i fyny trwy ymyriadau cefnogi amserol sydd wedi eu cynllunio'n dda. Felly, disgwylir i niferoedd PDG barhau i gynyddu hyd at 2026, ond dim ond o 11% (o 1,326 yn 2021-22 i 1,477 yn 2025/26) o gymharu â 40% yn y 6 blynedd a aeth heibio. Gweler y graff isod.

*6 Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yw'r fframwaith cyfreithiol a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i roi canllawiau i'r llys teulu am sut i reoli achosion gofal.*



## 6.2 Crynodeb o'r farchnad – Cartrefi gofal plant (Cartrefi gofal preswyl, llety diogel, canolfannau teulu preswyl)

| Beth sydd gennym yn awr  |           |           |                  | Beth sydd arnom angen   |         |         |         |  |
|--|-----------|-----------|------------------|---|---------|---------|---------|--|
| <p>Mae'r farchnad mewn cartrefi gofal plant yn eithaf amrywiol. "BBaCh" lleol sydd yma yn bennaf, er bod rhai darparwyr mwy dros Gymru gyfan a Chymru a Lloegr yn gweithredu yn y rhanbarth.</p> <p>Mae nifer uchel o leoliadau "allan o'r ardal" (AOA) yn amlygu diffyg gallu "yn yr ardal". Mae oblygiadau cost i hyn gan y gall lleoliadau AOA gostio mwy na darpariaeth leol. Mae 15 o wahanol ddarparwyr gofal a chefnogaeth ar gronfa ddata CCSR a 6 arall wedi'u cofrestru gydag AGiC yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae uned seibiant fewnol i blant ag anableddau yn y ddau awdurdod.</p>                |           |           |                  | <p><b>Disgwyliwn gynydd o 27% yn yr angen am leoliadau preswyl i blant</b> o 116 yn 2021/22 i 147 yn 2025/6. Mae arnom angen mwy o:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Leoliadau preswyl yng Nghaerdydd a'r Fro.</li> <li>Modelau therapiwtig arbenigol a rhai heb fod yn safonol o ofal preswyl i gwrdd ag anghenion cymhleth.</li> <li>Llety diogel yng Nghymru ac yn nes at adref.</li> </ul> <p><b>Pam ein bod yn disgwyl hyn:</b> Disgwylir i'r boblogaeth o bobl dan 19 yn y rhanbarth gynyddu 5.6% dros y 5 mlynedd nesaf yn ôl Ystadegau Cymru ar sail data cyfrifiad 2011.</p> |         |         |         |  |
| Ardal/Math   | Darparwyr | Cartrefi  | Cyfanswm gwelyau | 0-19 oed  | 2021    | 2025    | % newid | Sylwadau   |
| Fframwaith/Heb fod yn fframwaith Caerdydd  | 9         | 16        | 124              | Y Fro   | 29,209  | 29,364  | 0.53%   | % twf yn y rhai dros 16 (15.5%) yn uwch o lawer nag yn y rhai 0-15 oed (3.23%) |
| AGiC Arall – Caerdydd  | 4         | 7         | 27               | Caerdydd  | 93,527  | 100,248 | 7.19%   |  |
| Fframwaith/Heb fod yn fframwaith Y Fro   | 6         | 6         | 28               | Rhanbarth   | 122,736 | 129,612 | 5.60%   |  |
| AGiC Arall – Y Fro   | 2         | 3         | 37               |   |         |         |         |  |
| <b>Cyfanswm y Rhanbarth</b>  | <b>21</b> | <b>35</b> | <b>216*</b>      |   |         |         |         |  |
| <p>* Mae cyfleusterau eraill yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol eraill/comisiynwyr GIG.</p> <p><b>Rhwng y tri awdurdod cyllido:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwario tua £0.483m yr wythnos ar leoliadau plant (seiliedig ar ddata ciplun) i gefnogi dros 110 o bobl.</li> <li>82% o'r lleoliadau a gofnodir ar CCSR yn AOA. <b>Mae hyn yn amlygu diffyg digonoldeb y farchnad leol i blant ag anghenion cymhleth.</b></li> </ul> <p><b>Mae'r farchnad yn ddwysach nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Mae 33% o'r gwariant gyda dim ond 5 darparwr. 50% gyda 10 darparwr.</b></p> |           |           |                  | <p><b>Mae Caerdydd a'r Fro am ddefnyddio lleoliadau gofal preswyl yn unig lle mae cymhlethdod a heriau anghenion plentyn neu berson ifanc yn golygu na all fyw gyda theulu, neu lle mae person ifanc yn destun gorchymyn llys am leoliad diogel.</b></p> <p><b>Cynyddodd niferoedd PDG 40% o 946 ar 31/03/17 i 1,326 yn 31/03/22.</b> Cyfrannodd hyn at fwy o ddefnydd o ofal preswyl. Rhwng 2017 – 2022 cynyddodd Caerdydd y nifer o 55 o leoliadau i 101 (+84%), a'r Fro o 10 lleoliad i 15 (+50%). Yn gyffredinol, cynyddodd y rhanbarth o 65 i 116 o leoliadau (+78%).</p>                  |         |         |         |  |

| Problemau a risgiau   | Casgliadau/Camau  |
|---|---|
| <p><b>Mae darparwyr preswyl yn cael anhawster recriwtio gweithwyr.</b> Mae rhai yn methu cyflwyno gwasanaeth yn unol â'u datganiad o bwrpas.</p> <p><b>Mae'r galw yn cynyddu am fodolau arbenigol therapiwtig o ofal preswyl a rhai heb fod yn safonol</b> gan gynnwys cefnogaeth i blant ag anableddau dysgu, ASA, a chydag anghenion iechyd meddwl.</p> <p><b>Mae'r gallu preswyl yn y rhanbarth yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol eraill</b> sy'n golygu fod plant lleol yn cael eu gosod AOA, lle gellid osgoi hyn.</p> <p><b>Mae'r Ganolfan Asesu (Falconwood)</b> am newid eu DOB i helpu i ymdrin â blaenoriaethau er mwyn cynyddu digonoldeb lleoliadau lleol. <b>Mae diffyg llety diogel yng Nghymru.</b></p> <p>Gofal preswyl weithiau yw'r unig ddewis o ran cefnogi pobl ifanc ag anghenion cymhleth oherwydd bod <b>diffyg gofalwyr maeth gyda'r sgiliau i gefnogi anghenion cymhleth, a gall cyfatebu fod yn anodd.</b></p> <p><b>Gallai mwy o gefnogaeth fod ar gael mewn ysgolion ar gyfer plant</b> ag anghenion cymhleth neu iechyd meddwl i ymyrryd yn gynnar i osgoi argyfwng neu wneud anghenion cefnogaeth yn waeth.</p> <p><b>Mae diffyg cefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr maeth i gadw plant yn eu cartrefi yn ystod cyfnodau heriol</b> – Sefydlwyd DPS cyfun newydd i Oedolion/Plant er mwyn cael cefnogaeth 'yn y cartref' yng Nghaerdydd i ymdrin â'r angen hwn. Fodd bynnag, darparwyr gwasanaeth i oedolion sydd yno'n bennaf. Dim ond dau ddarparwr gwasanaethau plant a restrir, i gefnogi teuluoedd, gofalwyr maeth a mabwysiadu. Mae angen ehangu elfen cefnogi plant y DPS hwn.</p> <p><b>Mae anghenion iechyd meddwl a lles yn cynyddu yn y boblogaeth.</b> Mae'r anghenion hyn yn amlycach mewn PDG am sawl rheswm gan gynnwys profiadau andwyol mewn plentyndod Byddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwell cefnogaeth iechyd meddwl a lles yn y gymuned yn gostwng cyfraddau chwalu teuluoedd a lleoliadau maeth.</li> </ul> | <p><b>Y mae risgiau cymedrol i sefydlogrwydd y farchnad yn bodoli, ond yn cael eu lliniaru. Y prif bryder yw digonoldeb y farchnad,</b> yn fwy penodol, dim digon o allu gofal preswyl arbenigol yn y rhanbarth.</p> <p><b>Camau – Byddwn yn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu'r gallu gofal maeth ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cefnogaeth gofleidiol teuluol i PDG gydag anghenion cymhleth gan gynnwys ymateb mewn argyfwng ac ymyriadau dwys i osgoi lleoliadau preswyl os oes modd</li> <li>Datblygu darpariaeth breswyl fewnol a gweithio gyda darparwyr i ddatblygu'r farchnad breswyl leol er mwyn gallu cynnig lleoliadau lleol lle bynnag mae hyn yn bosib</li> <li>Rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi cyfalaf i gael mwy o gartrefi mewnol pryd a phan fydd eu hangen.</li> <li>Cydweithio gyda darparwyr i ddatblygu ystod o wasanaethau lleol i gwrdd â'r angen.</li> <li>Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a thyfu'r model cyflwyno i gwrdd â'r galw cynyddol am leoliadau preswyl therapiwtig arbenigol yn unol â'r <b>“agwedd “Dim drws anghywir”.</b></li> <li>Ail-ddatblygu dau gartref gofal mewnol yng Nghaerdydd i gwrdd yn well â galw a chymhlethdod anghenion plant ag anableddau. Mae hyn yn golygu gostwng nifer y gwelyau o 8 (Tŷ Storrie) a 6 (Crossland) i 4 gwely ym mhob uned.</li> <li>Datblygu eiddo 3 gwely (Oakway) yng Nghaerdydd fel darpariaeth argyfwng i 2 o drigolion.</li> <li>Defnyddio canolfan asesu Falconwood yng Nghaerdydd ar gyfer lleoliadau 12-wythnos i gynnig asesu, cefnogaeth therapiwtig a chefnogaeth i rieni.</li> <li>Darparu uned 6-gwely newydd i geiswyr lloches 16+ oed sydd heb oedolion gyda hwy, i'w defnyddio yn rhanbarthol</li> </ul> |

| Problemau a risgiau  | Casgliadau/Camau   |
|--|--|
| <p>Gallai cefnogaeth therapiwtig mewn lleoliadau preswyl ddarparu ymyriad cynnar, cefnogi adferiad a dychwelyd i'r teulu.</p> <p><b>Mae oedi'n digwydd weithiau cyn rhyddhau o wardiau iechyd meddwl plant a phobl ifanc</b> am nad oes lleoliadau preswyl priodol ar gael.</p> <p><b>Bu mwy o alw am y nifer cyfyngedig o leoliadau preswyl i deuluoedd yn ystod pandemig COVID-19</b> ac ni wyddom beth fydd yr effaith ar y galw yn y tymor hir.</p> <p>Ni wyddom beth fydd effaith y <b>polisi i ddileu elw preifat</b> o ofal plant</p> <p><b>Mae risg gymedrol y bydd darparwyr yn methu.</b> Mae'r risg hon wedi ei lliniaru i raddau oherwydd bod ewyllys da ymysg darparwyr i gydweithio a ni i oresgyn problemau, ac yr ydym yn datblygu'r gallu mewnol i gyfyngu ar y risg.</p> <p><b>Mae lefelau dwyster y farchnad yn golygu y gallai methiant un neu ddau o'r prif ddarparwyr ansefydlogi'r farchnad.</b> Mae'r risg hon wedi ei lliniaru i raddau gan fod unedau preswyl mewnol ym mhob awdurdod lleol sy'n cael eu cyfoesi, a bod tri darparwr preswyl yn gweithio yn unig yn y rhanbarth.</p> | <p><b>Nid oes gennym chwaith wasanaethau Anabledd Dysgu/ASA arbenigol yn yr ardal i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.</b> Mae hyn yn golygu lleoliadau AOA, lle mae plant yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd a rhwydweithiau cefnogi eraill yn eu cymuned leol.</p> <p><b>Camau – Byddwn:</b></p> <p>Mae'n anodd weithiau gwneud achos busnes i ddatblygu gallu arbenigol "yn yr ardal" ar y sail nad oes digon o alw yn y rhanbarth i gyfiawnhau'r buddsoddi angenrheidiol. Fodd bynnag, mae carfannau o bobl ifanc gydag anghenion cefnogaeth tebyg y gallwn ddatblygu gwasanaethau bychain arbenigol "yn yr ardal" iddynt. Felly, lle mae modd gwneud achos busnes, byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu digon o lety diogel i'n plant a'n pobl ifanc yng Nghymru.</li> <li>• Ymrwymo i roi blaenoriaeth i fuddsoddiad cyfalaf mewn unedau preswyl mewnol newydd yn y ddau awdurdod lleol.</li> </ul> |

## 6.3 Crynodeb o'r farchnad - Gwasanaethau mabwysiadu

| Beth sydd gennym yn awr   |         |         |         |         |         |      | Beth sydd arnom angen  |         |         |         |         |         |       |
|---|---------|---------|---------|---------|---------|------|--|---------|---------|---------|---------|---------|-------|
| <p>Mae'r Fro yn cynnal <b>Menter Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC)</b>. Mae'n darparu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol i Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.</p> <p>Mae'r tabl isod yn amlinellu gweithgaredd mabwysiadu am Gaerdydd a'r Fro o gyfeiriadau at y gwasanaeth i nifer y plant a fabwysiadwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Bu llai o gyfeiriadau i'r gwasanaeth a gorchmynion lleoli yng Nghaerdydd, ond bu mwy yn y Fro. O ran gorchmynion mabwysiadu, bu'r nifer a ganiatawyd yn weddol sefydlog dros y cyfnod o 5 mlynedd. Ar nodyn cadarnhaol, gostwng mae nifer y plant oedd yn aros ar ddiwedd y flwyddyn, ac y mae nifer cyffredinol y plant a leolir yn cynyddu.</p> |         |         |         |         |         |      | <p><b>Rydym yn disgwyl i'r angen am leoliadau mabwysiadu aros ar lefel debyg i'r hyn ydyw yn awr.</b> Bydd yr union niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar y galli i "gyfatebu" yn addas rhwng plant a'r darpar-rieni mabwysiadu fydd ar gael.</p> <p>Blaenoriaeth y gwasanaeth yw parhau i ostwng amseroedd aros i blant sydd â chynllun mabwysiadu.</p> <p><b>Pam ein bod yn disgwyl hyn:</b></p> <p><b>Mae rhagfynegiadau poblogaeth yn dangos y bydd nifer y plant yn debyg o fod yn weddol sefydlog hyd at 2026.</b></p> <p><b>Cynyddodd nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) yn y rhanbarth 40% o 946 yn 2017 i 1,326 yn 2022.</b> Mae hyn oherwydd bod cymhlethdod anghenion cefnogaeth y plant wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Felly, er bod poblogaeth plant a'r bobl ifanc yn gyffredinol yn sefydlog, mae nifer y PDG yn debyg o gynyddu eto dros y blynyddoedd nesaf, er yn araf (gweler 6.1 uchod).</p> <p>Fodd bynnag, ni ddisgwylir i weithgaredd mabwysiadu gynyddu dros y pum mlynedd nesaf oherwydd bod Caerdydd a'r Fro yn bwriadu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Defnyddio agweddau atal ac ymyriad cynnar</b> i arafu cyfradd y twf yn nifer y PDG.</li> <li>• <b>Cefnogi plant i aros yn eu cartrefi lle bo modd.</b> Lle nad yw hyn yn bosib, mae'r ddau awdurdod wedi ymrwymo i ddefnyddio gofal gan berthnasau, gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig a gofal maeth fel eu llwybr cyntaf at sefyllfa barhaol. Lle nad yw hyn yn bosib, ystyrir mabwysiadu fel y dewis cyntaf i greu sefyllfa barhaol i blentyn.</li> </ul> |         |         |         |         |         |       |
| Caerdydd  | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | %    | Y Fro  | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | %     |
| Cyfeiriwyd  | 117     | 62      | 50      | 62      | 73      | -38% | Cyfeiriwyd   | 21      | 16      | 17      | 30      | 28      | 33%   |
| Gorchmynion lleoli  | 46      | 28      | 25      | 24      | 26      | -43% | Gorchmynion lleoli   | 5       | 17      | 11      | 12      | 14      | 180%  |
| Plant a leolwyd   | 40      | 49      | 51      | 25      | 37      | -8%  | Plant a leolwyd  | 2       | 10      | 20      | 8       | 17      | 750%  |
| Gorchmynion mabwysiadu  | 27      | 22      | 31      | 37      | 35      | 30%  | Gorchmynion mabwysiadu   | 7       | 5       | 8       | 12      | 10      | 43%   |
| Plant yn aros   | 30      | 57      | 36      | 26      | 14      | -53% | Plant yn aros  | 4       | 14      | 11      | 14      | 9       | 125%  |
| Lleolwyd yn y rhanbarth   | 15      | 15      | 31      | 20      | 29      | 93%  | Lleolwyd yn y rhanbarth  | 1       | 9       | 12      | 6       | 6       | 500%  |
| Lleolwyd y tu allan i'r rhanbarth   | 25      | 34      | 20      | 5       | 8       | -68% | Lleolwyd y tu allan i'r rhanbarth  | 1       | 1       | 8       | 2       | 11      | 1000% |

Newid amlwg o ran darparu gwasanaethau mabwysiadu fu'r angen i ddarparu ystod o wasanaethau cefnogi ôl-fabwysiadu i rai plant, sy'n gofyn am becyn cefnogaeth therapiwtig. Bydd VVC yn asesu anghenion cefnogaeth ôl-fabwysiadu a bydd yr awdurdod lleol yn cytuno ar y cyllid. Dengys y tabl isod y gwariant cyffredinol ar y pecynnau hyn (heb gynnwys Lwfansau Mabwysiadu) a nifer y plant a gefnogwyd.

| Pecynnau a gyllidir gan yr ALI | 2019-20  | 2020-21 | 2021-22 | %    |
|--------------------------------|----------|---------|---------|------|
| Gwariant Caerdydd              | £105,104 | £94,051 | £92,972 | -12% |
| Plant Caerdydd                 | 48       | 38      | 43      | -10% |
| Gwariant y Fro                 | £55,970  | £63,380 | £25,598 | -54% |
| Plant y Fro                    | 22       | 22      | 19      | -14% |

### Problemau a risgiau

Ers ei gychwyn, llwyddodd VVC mewn llawer maes. Mae cydweithio wedi gwella cysondeb arferion a phrosesau, ac wedi lleihau'r oedi i'r plant hynny sydd angen lleoliadau mabwysiadu. Bob blwyddyn, cynyddodd VVC ei adnoddau i fabwysiadwyr trwy strategaeth farchnata a recriwtio gynhwysfawr, ac ar hyn o bryd, mae 36 o deuluoedd mabwysiadu a gymeradwywyd yn aros am blentyn i gyfateb. Mae'r adnoddau ychwanegol hefyd wedi galluogi lleoli mwy o blant yn lleol, sydd hefyd wedi lleihau costau ffioedd asiantaeth. Mae gweithio'n rhanbarthol wedi galluogi datblygu timau arbenigol i ganolbwyntio ar feysydd gweithgaredd allweddol, ac arweiniodd hyn at well perfformiad yn gyffredinol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod fod nifer o risgiau a phroblemau:

- **Dim digon o ddarpar-rieni mabwysiadu i rai grwpiau** e.e. brodyr a chwirydd, plant hŷn, plant o dreftadaeth gymysg, plant ag anghenion mwy cymhleth.
- **Teuluoedd yn chwalu yn ystod yr ardegau.** Roedd hyn yn bryder arbennig yn ystod COVID ac y maent yn tynnu sylw at yr angen i:
  - Roi gwell sgiliau i'r staff i ddelio â phrofiadau penodol i fabwysiadu.
  - Gwell cefnogaeth i deuluoedd wrth i broblemau godi dros y blynyddoedd gan gynnwys sicrhau mynediad amserol i deuluoedd mabwysiadu at wasanaethau cefnogi arbenigol a chofleidiol ar adegau heriol.

### Casgliad/Camau

Am ei fod yn rhan o strwythur cenedlaethol, nid yw **sefydlogrwydd yn bryder. Mae digonoldeb cyffredinol hefyd yn dda** oherwydd ar hyn o bryd mae gan VVC 36 o ddarpar-rieni mabwysiadu yn disgwyl am blant i gyfateb. Ond y mae heriau 'cyfatebu' yn dangos heriau o ran prinder darpar-rieni mabwysiadu i frodyr a chwirydd, plant hŷn, plant o dreftadaeth gymysg, plant ag anghenion mwy cymhleth.

#### Camau – Byddwn yn:

- **Parhau i ddarparu agweddau ataliol a chefnogol i deuluoedd** rhag i anghenion godi neu waethgu i'r graddau fod angen i blant dderbyn gofal. Ymysg mesurau mae buddsoddi yn y Tîm Integredig Cefnogi Teuluoedd (TICT)- partneriaeth rhwng Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rhaglen Dechrau'n Deg, a rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.
- **Parhau i ddatblygu gwasanaethau amserol i gefnogi mabwysiadu** i gwrdd ag anghenion plant mabwysiedig a'u teuluoedd.
- **Sicrhau bod comisiynwyr lleol yn parhau i gefnogi VVC** i recriwtio, hyfforddi cadw a chefnogi rhieni mabwysiadu newydd

## 6.4 Crynodeb o'r farchnad - Gofal maeth a chan berthnasau

| Beth sydd gennym yn awr  |          |                    |        | Beth sydd arnom angen  |
|--|----------|--------------------|--------|--|
| <p><b>Gofal gan berthnasau</b> – Gweler adran 4.6. Rydym wedi llwyddo i gynyddu nifer y PDG sy'n destun Gorchmynion Llys a lleolwyd gyda'u teuluoedd o 170% dros y 6 blynedd diwethaf (98 yn 2017 i 265 yn 2022) yn hytrach na gofal maeth prif-ffrwd.</p> <p><b>Gofal maeth</b> – Mae'r farchnad gofal maeth i blant yn weddol amrywiol. Mae yma gymysgedd o ddarparwyr y trydydd sector a rhai am elw, ond mae'n cynnwys rhai mudiadau cenedlaethol mawr. Mae <b>nifer uchel y lleoliadau maethu 'allan o'r ardal' yn amlygu diffyg gallu "yn yr ardal"</b>. Mae oblygiadau cost i hyn gan y gall fod "premiwm pris" o gymharu â darpariaeth leol. Mae 17 o wahanol ddarparwyr gofal a chefnogaeth ar gronfa Ddata CCSR – comisiynwyd trwy leoliadau Fframwaith a Heb Fod yn Fframwaith</p> <p>Yn 2021-22 dangosodd ciplun data ar ddechrau Mawrth 2022 fod y 3 awdurdod cyllido yn gwario £0.491m y.w. ar leoliadau gofal maeth i gefnogi 555 o blant. Mae 39% o'r lleoliadau (a gofnodwyd ar CCSR ym Mai 2022) y tu allan i'r rhanbarth. Mae hyn yn amlygu diffyg digonoldeb y farchnad am leoliadau maethu plant.</p> |          |                    |        | <p>Disgwyliwn gynydd o 34% o 841 o leoliadau maeth neu gan berthnasau yn 2022 i 1,126 yn 2026. Mae hyn yn cymharu â chynnydd gwirioneddol o 28% dros y 6 blynedd diwethaf. O ran bwriadau comisiynu, disgwylir i gyfran y lleoliadau maeth mewnol y bydd eu hangen gynyddu o 22% i 25% o gyfanswm y lleoliadau maeth a chan berthnasau.</p> <p><b>Pam ein bod yn disgwyl hyn:</b></p> <p><b>Bwriada Caerdydd a'r Fro ddefnyddio mwy ar ofal maeth a gofal gan berthnasau</b> i gefnogi plant i aros mewn teuluoedd ac yn eu cymunedau eu hunain lle bo hyn yn bosib. Maent eisiau cynyddu'r defnydd o'r isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofal gan berthnasau.</li> <li>• Gofalwyr maeth mewnol mwy lleol fel y cefnogir mwy o PDG "yn yr ardal" gan ddefnyddio asiantaethau maethu allanol "allan o'r ardal" (AOA) yn unig pan nad oes sgiliau arbenigol ar gael yn lleol.</li> <li>• Agweddau atal/ymyriad cynnar i arafu cyfradd twf niferoedd y PDG.</li> </ul> <p><b>Fodd bynnag, cynyddodd nifer y PDG yn y rhanbarth 40% o 946 yn 2017 i 1,326 yn 2022.</b> Nid yw'r rhanbarth yn unigryw yn hyn o beth, ac y mae niferoedd y PDG wedi cynyddu ledled y DU. Mae gan fwy o blant sydd angen cefnogaeth hefyd anghenion cefnogaeth cymhleth. Mae hyn yn creu mwy o angen am ofalwyr maeth gyda sgiliau arbenigol ac am fynediad sydyn at leoliadau mewn argyfwng. Weithiau, defnyddiwyd preswyl fel dewis arall pan nad oedd gofal maeth arbenigol ar gael.</p> <p>Mae'r cynnydd o 34% yn y defnydd o ofal maeth a gofal gan berthnasau rhwng 2017 a 2022 yn gadarnhaol.</p> <p>Mae cyfran uchel o leoliadau maeth AOA (e.e. 39% (215 o 555 lleoliad maeth ar 31 Mawrth 2022) oherwydd diffyg gofalwyr lleol sy'n meddu ar sgiliau.</p> |
| Ardal/Math   | Lleoliad | Gwariant wythnosol | Ave £  |  |
| Fframwaith – Caerdydd  | 443      | £0.404m            | £911   |  |
| Heb fod yn Fframwaith – Caerdydd   | 30       | £0.028m            | £922   |  |
| Fframwaith – Y Fro   | 81       | £0.058m            | £720   |  |
| Heb fod yn Fframwaith – Y Fro  | 1        | £0.002m            | £1,617 |  |
| Cyfanswm y Rhanbarth   | 555      | £0.491m            | £885   |  |

## Beth sydd gennym yn awr

**Mae'r farchnad hefyd yn ddwys iawn.** Mae dau o'r 5 prif ddarparwr yn eiddo i'r un mudiad am-elw ac yn cyfrif am 43% o'r gwariant. Mae'r 5 prif ddarparwr yn cyfrif am 71% o'r gwariant. Felly mae risg y byddai methiant un neu ddau o ddarparwyr mawr yn tarfu'n ddifrifol a gallai hyn fod yn anodd ei reoli.

**Fodd bynnag, mae graddfa risg sefydlogrwydd y farchnad yn dibynnu ar allu darparwyr eraill a gwasanaethau mewnlol i wneud iawn am y gallu** petai darparwr yn methu neu'n tynnu'n ôl o'r farchnad. Felly, er mwyn lliniaru'r risg hon, rydym yn:

- Tyfu ein gallu mewnlol capacity yng Nghaerdydd ac yn y Fro fel bod modd cefnogi anghenion nas atebir ar fyr rybudd.
- Datblygu ein hagwedd o bartneriaeth gyda phob asiantaeth yn y farchnad i'w gwneud yn fwy tebygol y buasant yn cymryd gofalwyr maeth/lleoliadau a symudwyd er mwyn tyfu eu busnes.


Felly, er ei bod yn bwysig cadw golwg ar sefydlogrwydd darparwyr, strategaeth darparwyr ac asesu risg dwyster y farchnad yn gyson, mae'n bwysig hefyd ein bod yn parhau i ddatblygu ein gallu mewnlol a datblygu perthynas agos gyda'r holl ddarparwyr.

## Beth sydd arnom angen

Mae'r symudiad o ofalwyr maeth asiantaeth i ofalwyr maeth mewnlol hefyd yn gadarnhaol. Er enghraifft, roedd:

- 14 yn llai o leoliadau maeth gan asiantaethau (387 i lawr o 401) a
- 40 yn fwy o leoliadau w gyda gofalwyr maeth mewnlol yr ALI yn 2022 o gymharu â 2017 (189 i fyny o 149)

Felly mae ein cynlluniau i ail-gydbwysu gofal maeth i ffwrdd oddi wrth asiantaethau allanol a thuag at wasanaethau mewnlol yn gweithio er ein bod am i hyn gyflymu.



| Problemau a risgiau  | Casgliad/Camau   |
|--|--|
| <p><b>Ni wyddom beth fydd effaith tymor-hir COVID-19 a'r argyfwng economaidd ar ofalwyr maeth a gofal gan berthnasau.</b> Er enghraifft, gall problemau iechyd tymor hwy neu galedi ariannol olygu bod llai o bobl yn dod ymlaen i ofalu. Fodd bynnag, hyd yma, gwelsom y gallu yn gwella wedi pandemig COVID-19.</p> <p><b>Nid yw rhai gofalwyr maeth newydd a pherthnasau sy'n gofalu yn teimlo eu bod wedi eu hyfforddi/paratoi yn ddigonol am yr heriau a all fod o'u blaenau.</b> Mae hyn yn cynyddu'r risg y bydd lleoliadau yn torri i lawr ar adegau heriol.</p> <p><b>Nid yw'r farchnad yn y rhanbarth am ofalwyr maeth gyda'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi plant ag anghenion cymhleth yn ddigonol</b> ac nid yw'n wastad yn bosib lleoli brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd. Dengys hyn fwch yn y dewisiadau gofal maeth sydd ar gael yn y rhanbarth.</p> <p><b>Mae angen mwy o gefnogaeth i deuluoedd/ gofalwyr maeth i gadw plant yn eu cartrefi yn ystod cyfnodau heriol.</b> Mae'r DPS cyfun newydd i Oedolion/Plant o gefnogaeth 'yn y cartref' yng Nghaerdydd i yn bennaf yn ddarparwyr gwasanaethau oedolion. Dim ond dau ddarparwr gwasanaethau plant a restrir i gefnogi teuluoedd a gofalwyr maeth a mabwysiadu. Mae angen i hyn ehangu.</p> <p><b>Mae rhieni fu'n maethu ers amser yn heneiddio.</b> Mae risg y colli eu profiad helaeth yn ogystal â'r hyn maent yn ddarparu pan fyddant yn ymdeol.</p> <p>Mae'n rhaid i ddatblygu pecynnau i gadw'r gofalwyr hyn cyhyd ag sydd modd fod yn flaenoriaeth ochr yn ochr â recriwtio gofalwyr maeth newydd i fod yn genhedlaeth nesaf. Dylid ystyried sut y gallai gofalwyr maeth sydd wedi ymdeol barhau i gyfrannau, e.e. fel mentoriaid i rai newydd.</p> <p><b>Newidiodd y Rheolau Cenedlaethol am sut y telir perthnasau sy'n gofalu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.</b> Mae'r newidiadau yn ei gwneud yn fwy cymhleth i gomisiynwyr ddylunio system o daliadau sy'n cefnogi perthnasau sy'n gofalu yn deg. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo.</p> <p><b>Mae mwy nag erioed o geiswyr lloches heb oedolion gyda hwy yn cyrraedd.</b> Mae hyn oherwydd y cynllun trosglwyddo cenedlaethol. Mae'r cwotâu yn hysbys ac yr ydym yn gwneud y rhain yn rhan o'n rhagdybiaethau cynllunio, ond mae dod o hyd i leoliadau yn her.</p> | <p><b>I liniaru risg sefydlogrwydd y farchnad,</b> byddwn yn monitro risg dwysedd presennol y farchnad mewn gofal maeth ac yn ymwneud â pherthnasau sy'n gofalu a gofalwyr maeth i ddeall effeithiau tymor-hir posib COVID 19 a'r argyfwng economaidd ar fwriadau'r dyfodol.</p> <p><b>Camau - I ymdrin â materion digonoldeb y farchnad byddwn yn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Parhau â'n hymdrechion i recriwtio gofalwyr maeth mewnol.</b></li> <li>• <b>Gweithio ar y cyd â'r farchnad gofal maeth i ail-lunio'r gwasanaeth maethu lleol a gynigir.</b> Bydd hyn yn cynnwys recriwtio, hyfforddi, gwobrwyon, seibiannau byr a mentrau i gynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol sydd ar gael.</li> <li>• <b>Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu sgiliau a gallu gofalwyr maeth i gefnogi plant ag anghenion cymhleth</b> a datblygu rhwydwaith gefnogi o gwmpas gofalwyr maeth megis cefnogaeth ddwys a chyflym mewn argyfwng a chefnogaeth arbenigol yn unol â'r agwedd "tîm o gwmpas y plentyn".</li> </ul> <p>Byddwn hefyd yn <b>sichrau y gallwn ymateb yn well i anghenion therapiwtig, iechyd meddwl a lles Plant sy'n Derbyn Gofal, eu rhieni a'u gofalwyr</b> trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddatblygu gwasanaethau sydd ar gael i PDG a'u teuluoedd.</li> <li>• Ail-lunio ein darpariaeth seibiant i gynnig cyfleoedd am seibiant byr hyblyg gan gynnwys darpariaeth frys i blant ag anabledau, a phlant, pobl ifanc a theuluoedd eraill.</li> <li>• Cymryd rhan ym Mhrosiect "Maethu Cymru" sydd â'r nod o gynyddu'r cyflenwad o ofalwyr maeth ledled Cymru.</li> </ul> |

## 6.5 Crynodeb o'r farchnad – Gwasanaethau eiriolaeth i blant a theuluoedd

| Beth sydd gennym yn awr   |              | Beth sydd arnom angen       |              |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |
|---|--------------|-----------------------------|--------------|----------|----------|---------|----------|---|-----|-------|--------------------------|-----|-----|--|------------|--------------|---------------------|---------|---------|---------|-----------------|------------|------------|------------|------------------|---------|---------|---------|-----------------|--------------|--------------|--------------|---|--|
| <p><b>Cynigir eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc sy'n dod yn PDG neu sy'n destun cynhadledd amddiffyn plant. Yn 2021-22 dyma oedd lefelau gwario a gweithgaredd ar eiriolaeth:</b></p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Eiriolaeth– Plant/Teuluoedd</th> <th>Y Fro</th> <th>Caerdydd</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwariant</td> <td>£53,000</td> <td>£258,000</td> </tr> <tr> <td>Oriau Eiriolaeth Seiliedig ar Bynciau (ESB)</td> <td>731</td> <td>2,551</td> </tr> <tr> <td>Oriau cynnig gweithredol</td> <td>122</td> <td>504</td> </tr> <tr> <td><b>Cyfanswm oriau (Cyfuniad o ESB/Gweithredol)</b></td> <td><b>853</b></td> <td><b>3,055</b></td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae lefel y gefnogaeth eiriolaeth i blant a phobl ifanc wedi amrywio (yn rhannol oherwydd COVID) dros y tair blynedd a aeth heibio.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Y Fro (Cleientiaid)</th> <th>2019-20</th> <th>2020-21</th> <th>2021-22</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td><b>Cyfanswm</b></td> <td><b>157</b></td> <td><b>227</b></td> <td><b>167</b></td> </tr> </tbody> </table> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Caerdydd (oriau)</th> <th>2019-20</th> <th>2020-21</th> <th>2021-22</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td><b>Cyfanswm</b></td> <td><b>4,262</b></td> <td><b>3,540</b></td> <td><b>3,055</b></td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae manyleb gwasanaeth cenedlaethol, sy'n rhoi peth cysondeb ledled Cymru. Mae'n cael ei addasu gan y rhanbarth i gwrdd ag anghenion lleol.</p> <p>Parhawyd i ddarparu eiriolaeth yn rhithiol trwy gydol y pandemig. Symudodd y gwasanaeth o fod yn rhithiol i fod wyneb yn wyneb fel mae'r canllawiau wedi caniatáu.</p> <p>Defnyddir templed adrodd cenedlaethol i adrodd am berfformiad a sicrhau ansawdd bob chwarter.</p> |              | Eiriolaeth– Plant/Teuluoedd | Y Fro        | Caerdydd | Gwariant | £53,000 | £258,000 | Oriau Eiriolaeth Seiliedig ar Bynciau (ESB) | 731 | 2,551 | Oriau cynnig gweithredol | 122 | 504 | <b>Cyfanswm oriau (Cyfuniad o ESB/Gweithredol)</b> | <b>853</b> | <b>3,055</b> | Y Fro (Cleientiaid) | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | <b>Cyfanswm</b> | <b>157</b> | <b>227</b> | <b>167</b> | Caerdydd (oriau) | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | <b>Cyfanswm</b> | <b>4,262</b> | <b>3,540</b> | <b>3,055</b> | <p>Y nod yw cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i wneud penderfyniadau deallus, gan ganolbwyntio'n unig ar farn a dymuniadau'r person ifanc. Bydd eiriolaeth yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall eu hawliau a'r dewis o gamau sydd ar gael, ond yn y pen draw, penderfyniad y plentyn neu'r person ifanc ei hun a fydd.</p> <p>Yn ogystal â darparu eiriolaeth unigol, rydym am i'r darparwr eiriolaeth a gomisiynir ddatblygu mwy ar adrodd thematig fel sail o wybodaeth ar draws y gyfarwyddiaeth ar lefel strategol. Mae arnom angen gwybodaeth gyfoes a chyson i nodi bylchau mewn gwasanaethau ac anghenion cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol.</p> <p><b>Ar hyn o bryd, yr ydym yn ail-dendro am y gwasanaeth a byddwn yn gweithio gyda'r darparwr i wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ehangu'r cynnig Ymweld Annibynnol i blant a phobl ifanc cymwys</li> <li>Gwneud y nifer mwyaf posib o bobl ifanc yn ymwybodol o eiriolaeth trwy'r cynnig sydd ar gael</li> </ul> <p>Datblygu llwybrau i sicrhau bod cyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaeth a nodwyd trwy'r Gwasanaeth Eiriolaeth yn sail i gyflwyno gwasanaethau ledled y gyfarwyddiaeth</p> |  |
| Eiriolaeth– Plant/Teuluoedd   | Y Fro        | Caerdydd                    |              |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |
| Gwariant  | £53,000      | £258,000                    |              |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |
| Oriau Eiriolaeth Seiliedig ar Bynciau (ESB)   | 731          | 2,551                       |              |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |
| Oriau cynnig gweithredol  | 122          | 504                         |              |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |
| <b>Cyfanswm oriau (Cyfuniad o ESB/Gweithredol)</b>  | <b>853</b>   | <b>3,055</b>                |              |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |
| Y Fro (Cleientiaid)   | 2019-20      | 2020-21                     | 2021-22      |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |
| <b>Cyfanswm</b>   | <b>157</b>   | <b>227</b>                  | <b>167</b>   |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |
| Caerdydd (oriau)  | 2019-20      | 2020-21                     | 2021-22      |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |
| <b>Cyfanswm</b>   | <b>4,262</b> | <b>3,540</b>                | <b>3,055</b> |          |          |         |          |   |     |       |                          |     |     |  |            |              |                     |         |         |         |                 |            |            |            |                  |         |         |         |                 |              |              |              |   |  |

## Problemau a risgiau


**Mae bwch yn y gwasanaeth** i blant a phobl ifanc yn y system Cyfiawnder Ieuenctid nad ydynt ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blant sy'n derbyn gofal (PDG).

Mae angen i eiriolwyr fod wedi eu hyfforddi i "Lefel 4". Mae hyn yn galw am fwy na 18 mis o hyfforddiant am hyd at 2 ddiwrnod y mis

Sicrhau ansawdd. Mae ansawdd yn cael ei sicrhau trwy isafswm o gyfarfodydd monitro contract chwarterol gyda chomisiynwyr. Mae adolygiadau ansawdd hefyd yn cael eu cynnal gan Brif Weithredwr NYAS, fel yr unigolyn cyfrifol. Nid oes problemau ansawdd ar hyn o bryd.

## Casgliadau a Chantau

- Y brif risg yw digonoldeb y farchnad.
- Yn y tymor byr rydym yn cydnabod bod ar ddarparwyr angen hyblygrwydd yn eu contractau i gwrdd ag anghenion yr unigolyn
- Yn y tymor hwy, wrth ddylunio'r broses dendro bresennol, rydym yn cydnabod fod ar ddarparwyr angen mwy o sicrwydd am lefelau gweithgaredd yn y dyfodol a chyllid i ddenu a chadw staff
- Camau – Byddwn yn adolygu:
- Y wybodaeth a ddarperir trwy adroddiadau thematig a monitro contractau fel sail i gyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol a nodi bylchau yn y gwasanaeth.
- Byddwn yn gweithio gyda darparwyr fel rhan o Gontract Rhanbarthol newydd, a dylai DPA y cynnig ganiatáu hyblygrwydd yn y gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu fel eu bod yn cwrdd ag anghenion yr unigolyn.



## 6.6 Digonoldeb gallu Gwasanaethau Plant i gwrdd â lefelau angen tebygol yn y dyfodol?

**Dros y blynyddoedd diwethaf, bu dinasyddion, arbenigwyr profiadol a staff yn y rhanbarth yn ymwneud a'r broses dadansoddi anghenion y boblogaeth (DAB).** Buont yn trafod eu boddhad â'r gwasanaethau presennol a'r hyn fydd arnynt ei angen yn y dyfodol. Mae'r ymchwili hwn yn rhoi cyfoeth o wybodaeth er mwyn amcangyfrif anghenion posib y dyfodol am bob math o wasanaeth sydd yng nghwmpas Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Hyd yma, mae ansicrwydd cysylltiedig â COVID wedi cyfyngu ar fodelu'n fanwl anghenion y dyfodol am y gwasanaethau gofal a chefnogaeth a reoleiddir i'w cymharu yn erbyn yr hyn sy'n hysbys am y gallu. Fodd bynnag, gan fod pandemig COVID bellach ar gyfnod mwy sefydlog, dyma benderfynu bod yr amser yn iawn i ddefnyddi'r DAB i gau'r bwlch hwn yn ein gwybodaeth cynllunio. I wneud hyn, cynhaliwyd dau weithdy gyda Chomisiynwyr o bob cwr o'r rhanbarth. Adolygodd pob gweithdy dystiolaeth a dod i gonsensws am lefelau tebygol yr angen am bob gwasanaeth a reoleiddir am y 5 mlynedd hyd at 2026 fel yr oedd Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn mynnu. Dengys y canlyniadau (gweler y tabl isod) fod y prif heriau digonoldeb mewn llefydd cartrefi gofal ac mewn gofal maeth- yn benodol, gofalwyr maeth mewnol:

| Gwasanaeth  | Gallu yn yr ardal nawr | Gallu a ddefnyddir nawr | Newid yn yr angen hyd at 2026 | Sylwadau am allu ychwanegol fydd ei angen erbyn 2026  |
|---|------------------------|-------------------------|-------------------------------|---|
| <b>Cartrefi gofal plant <sup>7</sup></b>                        | 152 Lleoliad           | 116 Lleoliad            | +27%                          | Disgwylir i'r angen gynyddu 27% (tua 31 yn fwy o lefydd) (8 yn fwy bob blwyddyn). Yn benodol, mae arnom angen mwy o allu therapiwtig arbenigol "Yn y Rhanbarth".  |
| <b>Gwasanaethau mabwysiadu</b>                                  | 40 Lleoliad            | D/G                     | 0%                            | Disgwylir i'r angen fod yn sefydlog hyd at 2026. Bydd y niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar 'gyfatebu', ond mae'r lleoliadau sydd ar gael ar hyn o bryd i ranbarth y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn ddigonol.           |
| <b>Gwasanaethau mabwysiadu gan gynnwys gofal gan berthnasau</b> | 468 Lleoliad           | 841 Lleoliad            | +34%                          | Disgwylir i'r angen gynyddu 34% o 841 o leoliadau maeth/gofal gan berthnasau yn 2022 i 1,126 yn 2026. Disgwylir i gyfran y lleoliadau maeth mewnol fydd eu hangen gynyddu o 22% i 25% o gyfanswm y lleoliadau maeth a gofal gan berthnasau. |
| <b>Gwasanaethau Eiriolaeth Plant</b>                            | 3,908 awr              | 3,908 awr               | Anhysbys                      | Yr ydym ar hyn o bryd yn ail-dendro am y gwasanaeth a byddwn yn gweithio gyda'r darparwr i wneud yn siŵr fod y nifer uchaf o bobl ifanc yn ymwybodol o eiriolaeth trwy'r cynnig fydd ar gael.   |

*7 Mae cartrefi gofal plant yn cynnwys gwasanaethau llety diogel i blant a gwasanaethau canolfannau teulu preswyl*

# 7 Themâu Strategol

## 7.1 Cyflwyniad

**Yn adrannau 5 a 6 uchod rydym wedi disgrifio materion penodol digonoldeb a sefydlogrwydd ar gyfer marchnad pob gwasanaeth a reoleiddir o ran cwmpas. Mae ein dadansoddiad o wahanol broblemau a heriau ym meysydd marchnadoedd unigol wedi nodi saith thema strategol allweddol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r themâu hyn a beth y bwriadwn wneud:**

- Datblygu gallu'r farchnad yn y rhanbarth fel ei fod yn ddigonol i gwrdd â'r lefelau a ragwelir o anghenion am gefnogaeth yn y dyfodol.
- Diogelu sefydlogrwydd y marchnadoedd gofal a chefnogaeth rhanbarthol.

## 7.2 Ymdrin â galluedd y gweithlu a phrinder sgiliau

**Mae adborth gan ddinasyddion, comisiynwyr a darparwyr oll yn dangos mai'r gallu i ddenu, datblygu a chadw'r gweithlu yw'r mater pwysicaf mae gwasanaethau yn wynebu ar draws pob sector.**

### Yn y farchnad, mae prinder staff yn:

- Risg digonoldeb – Am eu bod yn cyfyngu gallu'r farchnad i gwrdd ag anghenion y boblogaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Risg sefydlogrwydd - Gan na all darparwyr recriwtio/cadw y staff mae arnynt eu hangen i gyflwyno lefelau gweithgaredd cynaliadwy.

**Dangosodd ein dadansoddiad o'r farchnad gofal a reoleiddir fod prinder staff a/ neu sgiliau yn effeithio ar lawer o'r gwasanaethau a reoleiddir yng nghwmpas yr ASF. Yn benodol:**

- Mewn gwasanaethau gofal cartref i oedolion, nid oes gan ddarparwyr y gallu angenrheidiol i gymryd cwsmeriaid newydd ac nid oes gennym ddigon o ofalwyr mewn lleoliadau oedolion /bywydau a rennir yn gyffredinol, ac y mae angen mwy gyda'r sgiliau i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth
- Mewn gwasanaethau plant nid oes gennym ddigon o ofalwyr maeth a pherthnasau sy'n gofalu yn gyffredinol ac yn enwedig rai gyda'r sgiliau i gefnogi plant ag anghenion

cymhleth ac nid oes gennym ddigon o ddarpar-rieni mabwysiadu, e.e. ar gyfer grwpiau o frodyr a chwiorydd, plant hŷn, plant o dreftadaeth gymysg, a phlant ag anghenion cymhleth.

**Mae recriwtio a chadw staff gyda'r sgiliau i gefnogi pobl ag anghenion cefnogaeth cymhleth yn her arbennig y byddwn yn gweithio gyda darparwyr i ymdrin â hi. Ymysg problemau allweddol y gwyddom mae angen mynd i'r afael â hwy mae:**

- Nid yw cyflogau yn ddigon deniadol ac y mae prinder gweithwyr ar draws pob sector.
- Gall diffyg strwythur gyrfa clir a chydabod gwerth gwaith gofal a chefnogaeth olygu bod llawer o weithwyr yn gweld gweithio mewn gofal cymdeithasol fel cam ar y ffordd i yrfa yn rhywle arall.
- Nid oes llawer o ddealltwriaeth am swyddi mewn rhai gwasanaethau, megis gofal maeth a lleoliadau oedolion, ac felly nid oes digon o bobl yn ymgeisio amdanynt.

## 7.3 Talu ffioedd teg

**Mae talu ffioedd teg hefyd yn sylfaenol i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw a amlinellwyd uchod.**

Tynnodd y crynodeb o adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i gartrefi gofal yng Nghymru (2017) sylw at y ffaith fod hyn yn broblem ledled Cymru. Tyfodd arwyddocâd hyn yn lleol oherwydd pwysau costau ychwanegol oherwydd pandemig COVID a'r cynnydd digynsail presennol mewn chwyddiant am bethau sylfaenol fel tanwydd, PPE, a chyflogau.

Yn ddiweddar, cytunodd awdurdodau lleol Caerdydd a'r Fro ar godiadau ffioedd uwch na chwyddiant i ddarparwyr am 2022-23 er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon yn y tymor byr, ond rydym yn cydnabod yr angen i gadw golwg gyson ar gynaliadwyedd ffioedd.

Arweiniodd diffyg cyflenwad gofal preswyl i'n plant a phobl ifanc, ynghyd â mwy o alw am ofal preswyl (yn enwedig i PaPhl ag anghenion cymhleth) at i ni orfod talu ffioedd sy'n uchel ac weithiau yn anghynaliadwy. Felly er ein bod wedi ymrwymo i dalu ffioedd teg am ofal a chefnogaeth, yr ydym yr un mor ymwybodol ein bod mewn "marchnad i'r gwerthwyr" a bod angen gwarchod rhag talu ffioedd nad ydynt yn rhoi gwerth am arian.

Oblygiadau'r uchod yw bod angen i gomisiynwyr dalu cost deg am ofal i ddarparwyr, ond dim mwy na phris teg. I helpu gyda hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth "Cytunwn i gytuno" i gomisiynwyr a ddarparwyr yn 2018. Defnyddir hyn neu agweddau tebyg i'n helpu i gytuno ar gost deg am ofal preswyl a nyrsio i bobl hŷn yn y rhanbarth dros gyfnod 5 mlynedd yr adroddiad hwn i sefydlogrwydd y farchnad.



## 7.4 Datblygu Gwasanaethau Mewnol i ostwng risg y farchnad

**Yr ydym yn gryf o blaid economi gymysg a chefnogi mentrau cymdeithasol.**

Yr ydym yn gweld y budd o gael gwasanaethau mewnol fel rhan o economi gymysg, sydd yn

cynyddu hyblygrwydd lleol, yn llenwi bylchau yn y farchnad leol, lliniaru risg petai ddarparwyr preifat yn methu, a denu buddsoddiad cyfalaf i'r ardal. Er enghraifft, pan gaeodd 3 o gartrefi gofal i oedolion yn ddiweddar yn y Fro, llwyddasom i gynnig cartref newydd i lawer o'r trigolion yr effeithiwyd arnynt yn un o'n cartrefi gofal mewnol ni.

Dros y 5 mlynedd nesaf, byddwn yn datblygu mwy o wasanaethau plant and gwasanaethau i oedolion o oedran gwaith gydag anghenion cymhleth "yn yr ardal". Lle mae'n gwneud synnwyr o ran gwerth cymdeithasol, byddwn yn datblygu'r rhain fel gwasanaethau mewnol a/neu yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau lleol "nid-am-elw". Mae hyn yn rhan allweddol o'n strategaeth i wneud y canlynol: cael ffioedd i wasanaethau plant sy'n werth da am arian, sicrhau bod mwy o blant yn derbyn cefnogaeth "yn yr ardal" i fod yn agos at eu teuluoedd a chymunedau eu cartrefi, ymdrin â'r diffyg gallu yn y rhanbarth i letya a gofalu am oedolion iau gydag anghenion cymhleth "yn yr ardal", a datblygu marchnad fwy gwydn all gwrdd ag anghenion mwy o bobl gydag anabledau dysgu neu ASA yn lleol.

## 7.5 Moderneiddio comisiynu a chontractio

### Nododd ein dadansoddiad o ddigonoldeb a sefydlogrwydd y farchnad yn adrannau 5 a 6 uchod sawl risg allweddol y mae angen eu lliniaru.

Yr ydym yn cydnabod, i wneud hyn, fod angen i ni gydweithio'n agos â'n darparwyr yn y farchnad a rhoi sicrwydd i ddarparwyr am weithgaredd a lefelau ffioedd yn y dyfodol. Heb y sicrwydd hwn, ni fydd ganddynt yr hyder sydd ei angen i fuddsoddi mewn moderneiddio modelau gwasanaeth ac ehangu'r gallu lle bo angen.

### Yr ydym yn cydnabod yr isod:

- Fod angen i ni wneud mwy i gyd-gynhyrchu ein strategaethau comisiynu gyda darparwyr a magu hyder ynddynt, ac i wneud hynny, rhaid i ni wneud mwy mewn partneriaeth â'n darparwyr yn y dyfodol i lunio'r farchnad.
- Yn ystod pandemig COVID-19 fe wnaethom ddysgu llawer, yn enwedig am ffyrdd o oresgyn heriau trwy wella perthynas ac adeiladu hyder rhyngom ni a'n darparwyr. Mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn i ni ymchwilio i ffyrdd newydd o gontractio seiliedig ar ddeilliannau lle mae gan ddarparwyr fwy o ddewis, hyblygrwydd a

chyfrifoldeb i gyflwyno gwasanaethau sy'n cwrdd orau ag anghenion dinasyddion. Er enghraifft, contractau bloc neu gymunedol.

- Mae cynllunio yn mynd yn gynyddol gymhleth wrth i ni ddatblygu ystod ehangach o wasanaethau, mwy o wasanaethau ataliol a llwybrau mwy integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen i ni fodelu yn fanwl faint o ba wasanaethau y bydd arnom eu hangen yn y dyfodol. Mae'r broses o gynhyrchu'r adroddiad hwn i sefydlogrwydd y farchnad wedi amlygu'r angen i wella ein sylfaen o dystiolaeth ar gyfer cynllunio.
- Rhaid i ni ddefnyddio agweddau rhanbarthol lle byddant yn rhoi gwell gwerth am arian, ac adeiladu ar ein profiad o agweddau rhanbarthol at fabwysiadu a gwasanaethau eiriolaeth plant. Er enghraifft, fe all fod lle i leihau lleoliadau "allan o'r ardal" i oedolion iau trwy ddatblygu gwasanaethau "yn yr ardal" y gall pobl ddychwelyd iddynt. Mae'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol y bodoli, felly wrth i ddewisiadau ymddangos, mae'r rhanbarth mewn lle da i werthuso costau a buddion pob cynnig rhanbarthol yn unigol.

## 7.6 Ail-sefydlu a chryfhau prosesau sicrhau ansawdd

Yn ystod pandemig COVID fe wnaethom addasu neu wneud i ffwrdd â phrosesau sicrhau ansawdd er mwyn cydymffurfio â rheoliadau newydd y pandemig. Rhaid ail-sefydlu'r rhain a'u gwella ymhellach. Mae Caerdydd yn rhoi trefniadau interim ar waith i sicrhau ansawdd gwasanaethau oedolion hyd nes yr aiff system raddio ansawdd newydd seiliedig ar y System Bwrcasu Ddeinamig yn fyw. Penododd y Fro swyddog sicrhau ansawdd newydd a gweithredu fframwaith ansawdd newydd.

Mewn marchnad gwerthwyr i wasanaethau plant a phobl ifanc, nid yw ffioedd uchel o raid yn cyfateb i ansawdd uwch. Mae'r 4C yn asesiad asesu ansawdd perfformiad i'r holl ddarparwyr yn y fframwaith, a adolygir gan ein comisiynwyr fel rhan o banel sy'n cael ei hwyluso gan y 4C.

Gall diffyg gallu mewn meysydd allweddol gael effaith ar ansawdd.

Nid oes safonau sicrhau ansawdd ar gael i eiriolaeth oedolion, ac nid yw'r comisiynwyr yn gofyn amdanynt. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad a fframwaith weithredu cadarn a ddefnyddir mewn Eiriolaeth Plant. Teimlwn y gallai gwasanaethau oedolion ddysgu o'r agwedd hon.

## 7.7 Ymdrin â bylchau mewn gwasanaethau atal ac ymyriad cynnar nas rheoleiddir

Bu'r DAB a ddaw gyda'r adroddiad hwn i sefydlogrwydd y farchnad yn ymwneud yn eang â dinasyddion, darparwyr gofal a chefnogaeth a mudiadau sy'n bartneriaid. Y nod oedd ymchwilio i gryfderau'r farchnad, bylchau, a chyfleoedd i wella. Nododd y broses hon sawl bwlch yn ystod y gwasanaethau sydd ar gael.

Mae a wnelo'r rhan fwyaf o fylchau â gwasanaethau nas rheoleiddir. Mae'r bylchau yn aml mewn gwasanaethau atal neu ymyriad cynnar. Petai'r gwasanaethau hyn ar gael ac yn effeithiol, buasent y galluogi mwy o bobl i fyw eu bywydau heb fod angen cefnogaeth gan y gwasanaethau a reoleiddir sydd yng nghwmpas yr Adroddiad hwn i Sefydlogrwydd y Farchnad. Ymysg y bylchau perthnasol a nodwyd yn y DAB mae:

- **Yr angen i ddatblygu tai gyda gallu i gefnogi fel dewis arall yn lle gofal preswyl i bobl hŷn fel na fydd angen mynd mor gynnar i ddarpariaeth gofal nyrsio.** Amcangyfrifodd Asesiad Anghenion Tai a Llety Pobl Hŷn am Gaerdydd a'r Fro (2018) y bydd yr angen, erbyn 2035, am dai gwarchod neu dai ymddeol, yn cynyddu o 3,698 i 6,071 uned ac i'r gallu tai gyda gofal

- tai â gofal ychwanegol/gallu i fyw gyda chymorth gynyddu o 309 i 1,276 uned.

- **Adsefydlu: mae ar bobl hŷn angen gallu mynd at wasanaethau adsefydlu am fwy na'r 6 wythnos a gynigir.** Weithiau, byddai cyfnod hwy o adsefydlu yn caniatáu i bobl adennill mwy o sgiliau ac annibyniaeth, ac felly bod angen llai o gefnogaeth yn y tymor hir.
- **Oedi cyn cael asesiadau therapi galwedigaethol (ThG), ymatal, a gwaith cymdeithasol** sydd yn ychwanegu at yr oedi cyn cael cefnogaeth yn y cartref, a gall gynyddu'r risgiau.
- **Gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a nam synhwyrdd:** Mae'r RNIB yn amcangyfrif fod 10% o bobl ag anabledd dysgu yn ddall neu'n rhannol ddall. Amcangyfrifwyd bod 3,792 o oedolion ag anabledd ac yn gymedrol neu'n ddifrifol drwm eu clyw yn byw yng Nghaerdydd a BM. Gall cefnogaeth effeithiol i'r nam synhwyrdd hwn yn aml eu gwneud yn fwy annibynnol.
- **Gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a salwch meddwl:** Amcangyfrifir y bydd 25-40% o bobl ag anableddau dysgu yn datblygu problemau iechyd meddwl, ond efallai na fyddant yn cael diagnosis o hyn am i'r salwch gael ei


briodoli'n anghywir i'r anabledd dysgu. Gall cefnogaeth effeithiol i salwch meddwl fel hyn yn aml arwain at fwy o annibyniaeth.

- **Mae ar y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig angen mwy o allu.** Roedd yr amseroedd aros am apwyntiadau newydd yn 18 mis yn Awst 2021 o gymharu â tharged y cynllun cyflwyno o ddim mwy na 26 wythnos o amser aros.
- **Angen mwy o gefnogaeth i deuluoedd/gofalwyr maeth i gadw plant yn eu cartrefi yn ystod cyfnodau heriol.** Mae DPS Oedolion/Plant cyfun newydd i gael cefnogaeth "yn y cartref" i achosion cymhleth yng Nghaerdydd, ond darparwyr gwasanaeth i oedolion ydyw yn bennaf. Dim ond dau o ddarparwyr gwasanaethau plant sy'n cefnogi teuluoedd, gofalwyr maeth a mabwysiadu. Mae angen ei ehangu.
- **Gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc.** Gallai ymyriadau iechyd meddwl effeithiol cynnar a chefnogaeth i rieni/gofalwyr maeth leihau nifer y lleoliadau teulu a maeth sy'n torri i lawr, a'r galw yn sgil hynny am ddewisiadau preswyl. Petai'n effeithiol, byddai hyn yn galluogi mwy o bobl ifanc i gael eu cefnogi yn eu teuluoedd.


- **Gwell mynediad at gefnogaeth i deuluoedd plant ag anableddau/anhawster dysgu.** Gallai cefnogaeth effeithiol i deuluoedd gan gynnwys teuluoedd maeth leihau nifer y lleoliadau teulu a maeth sy'n torri i lawr, a'r galw yn sgil hynny am ddewisiadau preswyl. Petai'n effeithiol, byddai hyn yn galluogi mwy o bobl ifanc ag anableddau/anawsterau dysgu i gael eu cefnogi yn eu teuluoedd.
- **Mae'r Ganolfan Asesu (Falconwood)** am newid eu DOB i helpu i ymdrin â'r flaenoriaeth i gynyddu digonoldeb lleoliadau lleol. **Cynyddu'r ddarpariaeth breswyl / maethu i rieni a phlant** lle nad oes modd darparu digon o gefnogaeth a monitro yn y gymuned.

## 7.8 Gwneud y mwyaf o ddewis a rheolaeth trwy wneud defnydd o daliadau uniongyrchol

Dinasyddion dan 65 oed gydag anableddau corfforol yw'r garfan fwyaf sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol, ac yna dinasyddion ag anableddau dysgu. Dros y 5 mlynedd diwethaf bu cynnydd bychan yn nifer y dinasyddion ag anableddau dysgu sy'n eu defnyddio, ond fel arall, mae'r duedd wedi lefelu, fel y gwelir yn y graffiau isod. Dengys fod gwariant ar daliadau uniongyrchol wedi cynyddu o £2.3m dros y 5 mlynedd diwethaf, ond fel canran o gyfanswm y gwariant net ar ofal a chefnogaeth, mae wedi aros yn weddol sefydlog.



### Tueddiadau taliadau uniongyrchol - % o wariant net



Bwriadwn gynyddu nifer y rhai sy'n cymryd taliadau uniongyrchol. Rydym yn cydnabod nad pawb fyddai eisiau cyfrifoldeb taliadau uniongyrchol, felly rydym yn datblygu'r gwasanaeth "Eich Dewis Chi" yn y Fro. Mae ganddo gyfradd ffioedd cyfun seiliedig ar ddeilliannau fel tŷ hanner-ffordd rhwng taliadau uniongyrchol am ofal a chefnogaeth. Hefyd, yr ydym yn gwneud y canlynol:

- **Adolygu'r model meicro-fentrau cysylltiedig â thaliadau uniongyrchol a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Ngwlad yr Haf.** Mae'r model hwn yn creu strwythur o feicro-fentrau sy'n cefnogi mwy i fanteisio ar daliadau uniongyrchol. Yn ein barn ni, gellid defnyddio'r model yn ein rhanbarth ni i gael mwy i gymryd taliadau uniongyrchol, felly rydym am ddysgu mwy amdano. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r 4C i ymchwilio i'w ddefnydd posib gyda phlant a phobl ifanc.
- **Addasu systemau sicrhau ansawdd sy'n helpu ein dinasyddion i fynd at gefnogaeth o ansawdd dda** am fod ehangu taliadau uniongyrchol yn gofyn am ehangu'r farchnad nas rheoleiddir, fel bod gan bobl a thaliadau uniongyrchol ddewis eang o gefnogaeth.
- **Gwella mynediad at wybodaeth a chyngor** i helpu dinasyddion i wneud dewisiadau ar sail o wybodaeth.

